

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Prif Ymateb yr Awdurdod i'r Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim

Ymateb ar y cyd gan Lywodraeth y DU,
Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac
Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a
Materion Gwledig Gogledd Iwerddon



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, anfon e-bost: psi@nationalarchives.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:
emissions.trading@energysecurity.gov.uk

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	5
Crynodeb o Benderfyniadau'r Awdurdod	5
Cyflwyniad	9
Pennod 1: Yr Ymdriniaeth â Lefelau Gweithgarwch	11
Crynodeb o'r Cynigion	11
Crynodeb o'r ymatebion	12
Ymateb yr Awdurdod	13
Pennod 2: Meincnodau	16
Crynodeb o'r Cynigion	16
Crynodeb o'r ymatebion	18
Ymateb yr Awdurdod	19
Crynodeb o'r Cynigion	23
Crynodeb o'r ymatebion	25
Ymatebion i'r Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim	25
Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Dadleoli Carbon	27
Ymateb yr Awdurdod	28
Pennod 4: Ffactorau Ychwanegol ar gyfer Cyfrifo Dyraniad Am Ddim – Mynediad at Dechnolegau Datgarboneiddio	32
Crynodeb o'r Cynigion	32
Crynodeb o'r ymatebion	34
Ymateb yr Awdurdod	36
Pennod 5: Ffactorau Ychwanegol er mwyn Cyfrifo Dyraniadau Am Ddim – Amodau	38
Crynodeb o'r Cynigion	38
Crynodeb o'r Ymatebion	39
Ymateb yr Awdurdod	41
Pennod 6: Dyraniadau Am Ddim ar gyfer Sectorau wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU	43
Crynodeb o'r Cynigion	43
Crynodeb o'r Ymatebion	45
Ymateb yr Awdurdod	46
Pennod 7: Newidiadau Technegol	51

Crynodeb o'r Cynigion	51
Crynodeb o'r Ymatebion	52
Ymateb yr Awdurdod	54
Y camau nesaf	56

Crynodeb Gweithredol

Mae Awdurdod ETS y DU – sy'n cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon – wedi ymrwymo i sicrhau bod ETS y DU yn parhau i fod yn offeryn cadarn, teg ac effeithiol er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth liniaru'r risg o ddadleoli carbon i ddiwydiannau ledled y DU.

Ar ôl ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid drwy'r Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024)¹ a'r Ymgynghoriad ar Dadleoli Carbon (Rhagfyr 2024 – Mawrth 2025)², mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r ddau ymgynghoriad ac yn nodi penderfyniadau terfynol yr Awdurdod ynghylch diwygio rheolau dyraniadau am ddim.

Mae'r Awdurdod yn ddiolchgar i bob ymatebydd a gyfrannodd at yr ymgynghoriadau hyn. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn allweddol wrth lunio'r penderfyniadau polisi terfynol. Mae'r ymateb hwn yn cadarnhau y gweithredir nifer o newidiadau technegol i'r dull o gyfrifo dyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf o 2027. Nodir hefyd y llwybr tuag at ddiwygiadau pellach sy'n cyd-fynd â chyflwyno Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar Draws Ffiniau (CBAM) y DU yn 2027. Datblygwyd y penderfyniadau hyn yng ngoleuni cyhoeddiad y DU a'r UE ar 19 Mai er mwyn gweithio tuag at gysylltu ETS y DU a System Masnachu Allyriadau'r UE (ETS yr UE). Ceir hyd i fanylion pellach am hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Crynodeb o Benderfyniadau'r Awdurdod

Dyma'r prif benderfyniadau:

- Gall gweithredwyr ddewis eithrio data gweithgarwch ar gyfer naill ai 2020 yn unig neu flynyddoedd 2020 a 2021, er mwyn pennu lefel gweithgarwch hanesyddol (HAL) ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030.
- Cadw meincnodau cyfredol ar gyfer 2027, gyda'r bwriad mewn egwyddor o fabwysiadu gwerthoedd meincnod yr UE wedi'u diweddarau o 2028-2030,
- Cadw'r rhestr dadleoli carbon gyfredol³,
- Peidio cyflwyno haenau o ddyraniadau am ddim ar gyfer sectorau â risg o ddadleoli carbon.
- Dim diddymu dyraniadau am ddim yn gynnwys ar gyfer sectorau nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon,
- Ni fydd unrhyw fethodolegau ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn 2027, a fyddai'n cyflwyno amodau'n gysylltiedig â darparu dyraniadau am ddim. Gan sefydlu llwybr i ailystyried eu cyflwyno ar gyfer cyfnodau dyrannu yn y dyfodol, a

¹<https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

² <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage>

³ Ac eithrio gwelliannau dros dro a wnaed i'r rhestr ar gyfer 2024 – 2026.

- Diddymu dyraniadau am ddim yn raddol ar gyfer sectorau sydd o fewn cwmipas Mekanwaith y DU i Addasu Pris Carbon ar Draws Ffiniau yn 2027, gyda llwybr dangosol i ddiddymu'n raddol dros gyfnod o 9 mlynedd.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull bwriadol gytbwys a pragmatig o ddiwygio, gan sicrhau bod dyraniadau am ddim yn parhau i roi cefnogaeth ystyrlon i ddiwydiant y DU wrth bontio i sero net. Mae penderfyniadau allweddol, fel peidio â chyflwyno haenau o ddyraniadau am ddim, peidio â dwyn ymlaen y broses o ddiddymu dyraniadau am ddim i sectorau heb risg, a chadw'r Rhestr Dadleoli Carbon gyfredol⁴, yn adlewyrchu ymrwymiad tuag at sefydlogrwydd o ran polisi a sicrwydd i ddiwydiant. Mae'r penderfyniad i ddiddymu dyraniadau am ddim yn raddol ar gyfer sectorau CBAM y DU dros gyfnod dangosol o naw mlynedd, a chymhwyso hyn i is-safleoedd perthnasol yn unig, yn sicrhau cyfnod pontio teg a chymesur. Yn bwysig, mae'r Awdurdod hefyd wedi dewis peidio â chyflwyno amodau yn gysylltiedig â darparu dyraniadau am ddim, gan gydnabod y baich gweinyddol a'r ffaith na fyddai newid o'r fath yn creu rhyw lawer o fudd o ran datgarboneiddio. Mae addasiadau i HAL i roi cyfrif am effeithiau COVID-19 yn brawf arall o ymrwymiad yr Awdurdod tuag at degwch. Gyda'i gilydd, mae'r penderfyniadau hyn yn rhoi'r flaenoriaeth i ddull cefnogol a fydd yn galluogi diwydiant i gynllunio a buddsoddi gyda hyder, gan sicrhau bod dyraniadau am ddim yn parhau i weithio'n effeithiol ochr yn ochr â mecanweithiau polisi eraill.

Mae'r diwygiadau hyn gam pwysig yn esblygiad ETS y DU. Drwy ddiweddarau'r rheolau dyraniadau am ddim i adlewyrchu cronfa ddata fawr o'r arbedion effeithlonrwydd allyriadau diweddaraf a weithredwyd gan y diwydiant i sbarduno datgarboneiddio, mae Awdurdod ETS y DU yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn gadarn yn amgylcheddol ac yn gyson ag uchelgeisiau net sero ledled y DU. Mae'r bwriad i fabwysiadu gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE o 2028 (yn amodol ar asesu eu heffeithiau), cadw Rhestr Dadleoli Carbon gadarn, a'r broses raddol o ddirymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM y DU oll yn cyfrannu at gynllun sydd wedi'i dargedu'n well ac yn fwy effeithiol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnal y cymhelliant i safleoedd ddatgarboneiddio gan sicrhau bod gweithredwyr effeithlon yn cael eu gwobrwyo a bod y cynllun yn parhau i sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau ar gyfer diwydiannau ledled y DU.

Gan nad oedd gan y DU fynediad at werthoedd meincnod diweddaraf yr UE wrth wneud penderfyniadau, mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r gwerthoedd meincnod presennol ar gyfer blwyddyn gynllun 2027. Mae'r dull hwn yn sicrhau parhad ac yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i weithredwyr wrth iddynt gynllunio am y cyfnod dyrannu sydd i ddod. Mae'r Awdurdod yn bwriadu mabwysiadu gwerthoedd meincnod diweddaraf yr UE o 2028 ymlaen, yn amodol ar asesiad o'u heffeithiau ar fusnesau'r DU, am weddill y cyfnod dyrannu hyd at 2030. Mae'r dull graddol hwn yn cydbwyso'r angen i ddarparu llwybr rhagweladwy â'r ymrwymiad i ddiweddarau'r cynllun i adlewyrchu diweddariadau o ran arbed allyriadau.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar weithredu'r newidiadau hyn yn y cyfnod hyd at 2027.

⁴ Ac eithrio gwelliannau dros dro a wnaed i'r rhestr ar gyfer 2024 – 2026.

Rhyngweithio â Chysylltu ETS y DU – yr UE

Yn rhan o'r Bartneriaeth Strategol newydd rhwng y DU a'r UE, a gyhoeddwyd ar 19 Mai 2025, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu ETS y DU ac ETS yr UE Ceir llawer o fanteision o greu cynllun cysylltiedig, gan gynnwys creu marchnad carbon fwy, ddyfnach a mwy hylifol, a mynediad i'r farchnad honno. At ei gilydd, byddai cysylltu ETS y DU a'r UE yn golygu llwybr rhatach at sero net.

Mae'r penderfyniadau a nodir yn yr Ymateb Awdurdod hwn, a fydd yn dod i rym o 1 Ionawr 2027, wedi'u gwneud yn y cyd-destun hwn a chyda'r bwriad o leihau ystumiadau cystadleuol rhwng y DU a'r UE. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn bosibl y bydd polisi dyrannu am ddim y DU yn newid yn dilyn canlyniad y cytundeb cysylltu ffurfiol. Byddwn yn rhoi diweddariadau pellach ynghylch trafodaethau cysylltu ar yr adegau priodol.

Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar Draws Ffiniau y DU

Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno CBAM y DU ar 1 Ionawr 2027. Bydd hyn yn sicrhau bod gan gynhyrchion sy'n cael eu masnachu'n helaeth, sy'n ddwys o ran carbon ac sy'n cael eu mewnfario o dramor bris carbon tebyg i'r hyn a fyddai wedi bod yn daladwy pe baent wedi'u cynhyrchu yn y DU, fel bod ymdrechion datgarboneiddio'r DU yn arwain at ostyngiad gwirioneddol mewn allyriadau byd-eang yn hytrach nag ond dadleoli allyriadau carbon i wledydd tramor.

Bydd CBAM y DU yn gosod pris carbon ar rai o'r nwyddau diwydiannol mwyaf dwys o ran allyriadau a gaiff eu mewnfario i'r DU o'r sectorau alwminiwm, sment, gwrtaith, hydrogen a haearn a dur lle ceir risg o ddadleoli carbon. O fewn y sectorau hyn, ni fydd CBAM y DU ond yn berthnasol i 'nwyddau CBAM' penodol wedi'u mewnfario'.

Bydd CBAM y DU yn gweithio'n gydlynol ag ETS y DU. Mae hynny'n cynnwys lwfansau am ddim, lle bydd y fethodoleg i bennu cyfradd CBAM y DU yn adlewyrchu argaeledd lwfansau am ddim i gynhyrchwyr domestig.

Yn rhan o'r Ymateb hwn, mae Awdurdod ETS y DU yn cyhoeddi gostyngiad i ddyraniadau am ddim ar gyfer sectorau y bydd eu risg o ddadleoli carbon wedi'i lleihau drwy gael eu cynnwys yn CBAM y DU.

Ceir rhagor o wybodaeth am CBAM y DU ar [GOV.UK](https://gov.uk).

Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol


Rydym wedi ymrwymo i gefnogi diwydiannau ledled y DU i ddatgarboneiddio, gan amddiffyn miloedd o swyddi mewn rhanbarthau ledled y DU a galluogi'r wlad i fanteisio ar gyfleoedd newydd a all hyrwyddo twf a chreu cyfoeth. Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynllun clir ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol. Bydd Strategaeth Datgarboneiddio

Ddiwydiannol wedi'i hadnewyddu yn gosod cyfeiriad strategol i'n dull o weithio gyda diwydiant tuag at sylfaen ddiwydiannol gystadleuol a charbon isel yn y DU, gan sicrhau y manteisir ar gyfleoedd am dwf ar y cyd â gostyngiadau mewn allyriadau.

Cyflwyniad

Dyrannu lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU am ddim yw'r prif offeryn polisi a ddefnyddir ⁵ar hyn o bryd yn y DU i fynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon. Mae darparu lwfansau ETS y DU am ddim yn golygu bod angen i weithredwr brynu llai o lwfansau ar gyfer eu hallyriadau, sydd mewn gwirionedd yn lleihau'r pris carbon maent yn ei dalu ac yn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon. Mae'r cymhelliant i ddatgarboneiddio yn cael ei gynnal oherwydd, yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n cael dyraniadau am ddim ac yn datgarboneiddio yn cadw unrhyw ddyraniadau am ddim dros ben. Gallant werthu'r rhain ar y farchnad eilaidd er eu budd.

Caiff dyraniadau am ddim eu cyfrifo gan ddefnyddio'r hafaliad canlynol:



Figur 1 Sut y Caiff Dyraniadau Am Ddim eu Cyfrifo


Roedd ein dull gweithredu presennol ar gyfer dyraniadau am ddim ar gyfer safleoedd sefydlog o dan ETS y DU yn blaenoriaethu parhad i weithredwyr a methodoleg sydd wedi'i throsglwyddo i raddau helaeth o Gam IV ETS yr UE. Roedd hyn yn fodd i sicrhau parhad i gyfranogwyr y DU a oedd gynt wedi cael eu gweithredu o dan gynllun yr UE. Lansiodd yr Awdurdod adolygiad o'r polisi Dyraniadau Am Ddim yn 2021 gyda'r nod o sicrhau bod y polisi Dyraniadau Am Ddim yn

⁵ Mae dadleoli carbon yn golygu symud cynhyrchiant ac allyriadau cysylltiedig o un wlad i un arall oherwydd gwahanol lefelau o ymdrech datgarboneiddio drwy brisio carbon a dylanwadu ar yr hinsawdd. O ganlyniad i ddadleoli carbon, byddai amcan ymdrechion datgarboneiddio – lleihau allyriadau byd-eang – yn cael ei danseilio.

gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun y DU er mwyn cymell camau i leihau allyriadau ac er mwyn gwarchod diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, ac sy'n agored i fasnach, rhag y risg o ddadleoli carbon. Rydym wedi cynnal yr adolygiad hwn fesul cam:

- Canolbwyntiai'r cam cyntaf ar gyfran y Dyraniadau Am Ddim o dan y cap a oedd a gael i'w dosbarthu am ddim yn rhan o'r ymgynghoriad ar Ddatblygu ETS y DU.
- Canolbwyntiai'r ail gam ar y fethodoleg ar gyfer cyfrifo a dosbarthu Dyraniadau Am Ddim yn rhan o Ymgynghoriadau Adolygu Dyraniadau am Ddim 2023 a Dadleoli Carbon 2024.

Mae'r Ymateb hwn gan yr Awdurdod yn nodi penderfyniadau terfynol a fydd yn llywio'r modd y cyfrifir dyraniadau am ddim yn y cyfnod dyrannu nesaf o 2027. Mae amserlen yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yn Ffigur 2 yn dangos esblygiad yr adolygiad ac yn nodi amseriad camau adrodd yn y dyfodol.



Ffigur 2 Amserlen Adolygu Dyraniadau Am Ddim

Pennod 1: Yr Ymdriniaeth â Lefelau Gweithgarwch

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024) ar sut y dylai ETS y DU drin lefelau gweithgarwch hanesyddol (HAL) a newidiadau mewn lefel gweithgarwch (ALC).

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw at yr ymagwedd gyfredol at ALCs a pheidio gweithredu dull dynamig na newid y trothwy ALC. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac asesu'r opsiynau, daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod y dull presennol yn cynnig cyfaddawd rhesymol rhwng rhoi adlewyrchiad cywir o lefelau gweithgarwch, rhoi sicrwydd i ddiwydiant, a lleihau'r baich gweinyddol.

Ar ôl clywed pryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith COVID-19 ar lefelau gweithgarwch yn ystod y cyfnod gwaelodlin, mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd gweithredwyr safleoedd ETS y DU yn gallu dewis eithrio data gweithgarwch 2020 neu'r blynyddoedd 2020 a 2021 er mwyn pennu eu HAL ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030.

Crynodeb o'r Cynigion

Gofynnodd yr Awdurdod am safbwyntiau ynghylch a ddylid newid y dull o adlewyrchu lefelau gweithgarwch a newidiadau i weithgarwch mewn dyraniadau am ddim. Cyflwynwyd dau opsiwn yn yr ymgynghoriad, ni ddangoswyd ffafriaeth tuag at y naill na'r llall. Gofynnodd yr Awdurdod hefyd am farn ynghylch a ddylid archwilio trydydd opsiwn (Opsiwn 3) pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ffafrio.

Opsiwn 1: Gwneud Dim. Cadw a reolau a throthwyon cyfredol HAL ac ALC fel y mecanwaith ar gyfer sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch a newidiadau mewn gweithgarwch.

Dewis 2: Dyraniad dynamig Newid i ddull dyrannu dynamig, gan ddosbarthu dyraniadau am ddim ar sail dros dro ar ddechrau pob blwyddyn gynllun a diweddaru'r dyraniad ar ddiwedd pob blwyddyn gynllun i adlewyrchu gweithgarwch gwirioneddol a adroddwyd.

Opsiwn 3: Ystyried gostwng trothwy'r ALC. Cynnal rheolau cyfredol HAL ac ALC ond gostwng y trothwy lle caiff ALCs eu sbarduno (caiff ALCs fel arfer eu sbarduno os bydd gweithgarwch yn cynyddu neu'n gostwng 15% neu fwy mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd).

Cwestiynau (o Ymgynghoriad ar Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2023 – 2024)

2. A ddylai ETS y DU gadw at y dull cyfredol o ymdrin â newidiadau i lefel gweithgarwch neu newid i ddull dynamig (h.y., a ddylid addasu'r dyraniadau am ddim ar ddiwedd blwyddyn y cynllun, yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch a adroddwyd)?
3. O weithredu dull dynamig, a ddylid cyfrifo dyraniadau dros dro ar sail cyfnod treigl o weithgarwch a adroddwyd yn ddiweddar?
4. O ddefnyddio cyfnod treigl i gyfrifo dyraniad dros dro, a ddylid seilio'r cyfnod hwnnw ar y ddwy flynedd galendr lawn ddiweddaraf o weithgarwch wedi'i ddilysu (e.e., 2023-2024 ar gyfer dyraniad 2026)?
5. Drwy'r dull dynamig, a ddylai'r cyfrifiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer is-safleoedd meincnod wrth gefn barhau i gyfeirio at waelodlin benodol o'r gorffennol.
6. Os nad yw ETS y DU yn newid i ddull dynamig, a ddylai Awdurdod ETS y DU ystyried gostwng y trothwy ALC o 15% ac, os felly, beth fyddai'r trothwy priodol?

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 57 o ymatebion i'r adran hon o'r ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 18 (32%) o blaid cadw at y dull cyfredol, 31 (54%) o blaid newid i ddull dyrannu dynamig (ond gyda chafeatau mewn sawl achos), ac 8 (14%) heb nodi'r naill ffordd na'r llall.

Ymhlith y 18 a oedd o blaid cadw at y dull cyfredol, y prif resymau a roddwyd oedd yr ansicrwydd a achosir o beidio gwybod lefelau dyraniadau am ddim tan ar ôl y cyfnod cydymffurfio (13 o ymatebwyr), baich gweinyddol cynyddol ar reoleiddwyr yn arwain at oedi wrth brosesu newidiadau (9 o ymatebwyr), baich gweinyddol cynyddol ar weithredwyr a dilyswyr (5 o ymatebwyr), ac osgoi gwyro oddi wrth ETS yr UE (3 o ymatebwyr).

Ymhlith y 31 a oedd o blaid newid i ddull dyrannu dynamig mewn egwyddor, y prif resymau a roddwyd oedd ei bod hi'n anodd cyrraedd y trothwy ALC cyfredol yn ystod cyfnodau o ehangu (7 ymatebydd), cael gwared ar gymhellion croes (4 ymatebydd), ac osgoi tan-ddyrannu neu or-ddyrannu (4 ymatebydd).

Ychwanegodd deunaw o'r 31 gafeatau at eu cefnogaeth. Nododd un ar ddeg fod yn rhaid cwblhau addasiadau blynyddol i ddyraniadau am ddim cyn y dyddiad cau cydymffurfio, sef 30 Ebrill, neu'n ddelfrydol cyn diwedd blwyddyn ariannol y DU ar 5 Ebrill. Nododd 7 arall fod yn rhaid symleiddio'r broses ALC.

O'r 8 ymatebydd na atebodd y naill ffordd na'r llall, nododd 3 bryderon ynghylch y baich gweinyddol cynyddol yn sgil addasiadau blynyddol i ddyraniadau am ddim. dywedodd 2 fod addasiadau blynyddol i ddyraniadau am ddim yn gorfod cael eu cwblhau cyn y dyddiad cau cydymffurfio ac/neu ddiwedd y flwyddyn ariannol, a dywedodd dau fod angen symleiddio'r broses ALC.

Cafwyd 44 o ymatebion i'r cwestiwn ynghylch a ddylai'r Awdurdod ystyried gostwng y trothwy ALC, gyda 25 o ymatebwyr (57%) yn gwrthwynebu newid, 17 o ymatebwyr (39%) yn cefnogi newid, a 2 (4%) heb ddweud y naill ffordd na'r llall.

Ymhlith y 25 a oedd yn gwrthwynebu newid y trothwy ALC, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd: baich cynyddol ar reoleiddwyr yn arwain at oedi wrth brosesu newidiadau (10 ymatebydd); mwy o ansicrwydd ynghylch lefelau terfynol dyraniadau am ddim (4 ymatebydd); ac osgoi gwyro oddi wrth ddull ETS yr UE (2 ymatebydd). Awgrymodd un ymatebydd y dylid cael proses ar wahân ar gyfer dyraniadau am ddim i roi cyfrif am ehangu capasiti.

O'r 17 ymatebydd a oedd o blaid newid y trothwy ALC, awgrymodd 9 drothwy o naill ai 5% neu mor isel ag sy'n bosibl, ac awgrymodd 5 10-12% neu ostyngiad bach. Awgrymodd un ymatebydd y dylid dileu trothwy UKA 100 oherwydd y gall effeithio ar safleoedd llai. Nododd tri ymatebydd na ddylai unrhyw ostyngiad i'r trothwy gynyddu'r amser a gymerir i brosesu ALCs bob blwyddyn.

Mynegodd pedwar ymatebydd bryder y gallai effaith COVID-19 ar weithgarwch yn ystod y blynnyddoedd gwaelodlin arwain at HALs nad ydynt yn gynrychioliadol o lefelau gweithgarwch arferol.

Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw at yr ymagwedd gyfredol at HAL ac ALC a pheidio gweithredu dull dynamig na gostwng trothwy'r ALC. Bydd hyn yn rhoi parhad a sicrwydd i weithredwyr ac yn osgoi baich gweinyddol ychwanegol. Ar ôl asesu ein dull cyfredol (Opsiw 1), dulliau dyrannu dynamig (Opsiw 2), a gostwng trothwy'r ALC (Opsiw 3), daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod y dull cyfredol yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng rhoi adlewyrchiad cywir o weithgarwch, rhoi sicrwydd i ddiwydiant, a'r baich gweinyddol.

Ar ôl clywed pryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith COVID-19 ar lefelau gweithgarwch yn ystod y cyfnod gwaelodlin, mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd gweithredwyr safleoedd ETS y DU yn gallu dewis eithrio data gweithgarwch ym mlwyddyn 2020 neu flynyddoedd 2020 a 2021 er mwyn pennu HAL ar gyfer y cyfnod dyrannu 2027-2030. Bydd gweithredwyr yn gallu nodi a ydynt am eithrio gweithgarwch 2020 neu 2020 a 2021 o HAL ar lefel is-safle yn ystod ail gam y broses ymgeisio am ddyraniadau am ddim (1 Ebrill - 30 Mehefin 2026). Ceir canllawiau ar sut i wneud hyn cyn i ffenestr yr ail gam agor ar 1 Ebrill 2026.

Y dull presennol

Bu'r Awdurdod yn ymgynghori ar y posibilrwydd o newid y dull o ymdrin â gweithgarwch ac ALCs am ddau reswm cysylltiedig. Yn gyntaf, mae defnyddio data gweithgarwch o'r gorffennol yn golygu ei bod hi'n bosibl na fydd y dyraniadau am ddim yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch mwy diweddar. Mae'r mecanwaith ALC yn galluogi ymateb i newidiadau mewn lefelau gweithgarwch sy'n fwy na 15% yn uwch neu'n is na HAL yn ystod cyfnod dyrannu, ond ni chaiff newidiadau sy'n llai na'r trothwy hwnnw eu hystyried. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n bosibl nad

yw dyraniadau am ddim yn cael eu cyfeirio'n gywir tuag at weithgarwch sy'n agored i ddadleoli carbon.

Yn ail, roedd yr Awdurdod yn pryderu y gallai'r trothwy +/-15% greu cymhellion croes Nid yw lefelau gweithgarwch sy'n uwch na HAL ond yn is na +15% yn arwain at ddyraniadau am ddim ychwanegol a gallent greu cymhelliant croes i beidio cynyddu gweithgarwch oni fydd y cynnydd hwnnw +15% yn uwch na HAL. Nid yw lefelau gweithgarwch sy'n is na HAL ond heb fod yn fwy na -15% o gymharu â HAL yn arwain at lai o ddyraniadau am ddim, a gallent greu cymhelliant croes i leihau gweithgarwch.

Asesodd yr Awdurdod effeithiolrwydd y dull presennol o'r ddau safbwynt. Mae adolygiad o ddata diweddar yn awgrymu bod y system ddyrannu bresennol wedi arwain at ddosbarthiad cyffredinol uwch o lwfansau am ddim na'r hyn a fyddai wedi digwydd drwy dull dynamig. Roedd hyn oherwydd patrymau gweithgarwch penodol yn ystod cyfnod y sampl, nad ydynt o reidrwydd yn arwydd o dueddiadau yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau i weithgarwch yn fach, ac nid oedd tystiolaeth gref fod trothwyon yr ALC wedi dylanwadu ar benderfyniadau cynhyrchu ar draws y cynllun.

Byddai symud tuag at drothwy mwy sensitif yn debygol o gynyddu nifer yr ALCs y mae angen eu prosesu bob blwyddyn, gan roi baich gweinyddol anghymesur ar reoleiddwyr a'r Awdurdod. Byddai prosesu nifer fwy o ALCs o dan drothwy mwy sensitif hefyd yn debygol o gymryd mwy o amser, gan leihau sicrwydd i weithredwyr ynghylch lefelau eu dyraniadau am ddim yn dilyn y broses ALC. Gallai'r ansicrwydd hwn gyfyngu ar allu gweithredwyr i reoli amlygiad i gost carbon yn effeithiol, gan ei gwneud hi'n anoddach ymgysylltu'n hyderus ag ETS y DU a chynllunio buddsoddiadau datgarboneiddio. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod y dull presennol yn cyflawni bwriad y polisi o gynnig cyfaddawd rhesymol rhwng rhoi adlewyrchiad cywir o weithgarwch, rhoi sicrwydd i weithredwyr a'r baich gweinyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys asesiad yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Tyngedfennol, yn yr Asesiad Effaith ar GOV.UK a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Dyrannu dynamig

Amlinellodd yr ymgynghoriad gynllun dangosol ar gyfer dull dyrannu dynamig. Drwy'r dull hwn, byddai dyraniadau am ddim dros dro yn cael eu dosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn, yn seiliedig ar gyfartaledd treigl y ddwy flynedd ddiweddaraf o ddata sydd ar gael (e.e., Byddai dyraniad am ddim dros dro 2027 yn seiliedig ar weithgarwch 2024 a 2025). Byddai'r dyraniadau am ddim wedyn yn cael eu haddasu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben i adlewyrchu'r gweithgarwch gwirioneddol a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn gynllun honno. Byddai'r amser sydd ei angen i brosesu nifer sylweddol fwy o ALCs bob blwyddyn yn golygu bod addasiadau'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ildio lwfansau. Gan dybio na fydd unrhyw newid i'r amseroedd prosesu a'r capasiti presennol ar draws Awdurdod ETS y DU a chyrff Rheoleiddio, ni fyddai addasiadau i, e.e. dyraniadau am ddim 2027 (a adroddir yn 2028) yn cael eu cwblhau tan ar ôl y dyddiad cydymffurfio ar gyfer ildio lwfansau, yn 2029.

O'r 31 o ymatebwyr a oedd yn cefnogi dyrannu dynamig mewn egwyddor, mynegodd 18 yn glir fod eu cefnogaeth yn amodol ar gael amseroedd prosesu ALC byrrach nag a geir ar hyn o bryd. Roedd yn well ganddynt i'r dyraniad am ddim terfynol fod yn hysbys cyn y dyddiad cydymffurfio ar gyfer blwyddyn y cynllun, neu'n ddelfrydol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Ymchwiliodd yr Awdurdod i opsiynau er mwyn cyflymu'r broses ALC. Dyma rai o'r opsiynau a ystyriwyd: lleihau'r gwiriadau a gynhelir ar ddata neu eu tynnu o dan drothwy penodol; cynyddu capasiti'r rheoleiddiwr; atebion technegol i awtomeiddio rhannau o'r broses; a mwy o rôl i ddilyswyr. Roedd hi'n anodd mesur effaith debygol yr opsiynau hyn heb eu gweithredu'n ymarferol. Ac ystyried yr amser amcangyfrifedig yr oedd ei angen i ddatblygu a phrofi'r opsiynau hyn yn drylwyr, a'r diffyg sicrwydd ynghylch eu heffaith, casglodd yr Awdurdod na ellid gwarantu y byddai'r gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni er mwyn gweithredu dyraniadau dynamig o fewn yr amserlen.

Daeth yr Awdurdod i'r casgliad, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y ddarpariaeth, y byddai gweithredu dyraniadau dynamig yn achosi risg uchel o oedi neu o darfu'n sylweddol ar ddosbarthiad dyraniadau am ddim cyn y cyfnod dyrannu nesaf, ac na fyddai felly'n bodloni amodau'r ymatebwyr a ffafriai'r dull hwn.

Trothwy'r ALC

Ystyriodd yr Awdurdod a ddylid gostwng y trothwy ar gyfer ALCs. Dangosai asesiad o gyfnod sampl y byddai gostwng trothwy'r ALC i 10% yn achosi cynnydd i nifer yr ALCs a gaiff eu prosesu bob blwyddyn. Gan dybio na fydd unrhyw newid i'r amseroedd prosesu na'r capasiti presennol, byddai hyn yn golygu ei bod hi'n cymryd mwy o amser i brosesu ALCs, gyda mwy yn cael eu prosesu ar ôl y dyddiad cau cydymffurfio ar gyfer blwyddyn ganlynol y cynllun.

Dangosai'r asesiad hwn hefyd na fyddai hyn wedi effeithio rhyw lawer ar gyfanswm y lwfansau am ddim a ddosbarthwyd yn ystod y cyfnod sampl.

Ac ystyried mai bach iawn fyddai'r effaith debygol ar ddyraniadau am ddim, casglodd yr Awdurdod y byddai'r baich gweinyddol ychwanegol a'r oedi cyn prosesu ALCs yn anghymesur o gymharu â'r budd o gael trothwy ALC is.

Effaith COVID-19

Yn ystod yr ymgynghoriad, cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch effaith COVID-19 ar lefelau gweithgarwch yn ystod y cyfnod gwaelodlin gan arwain at HALs nad ydynt yn gynrychioliadol o weithgarwch arferol. Ar ôl clywed y pryderon hyn, asesodd yr Awdurdod opsiynau i liniaru hyn. Er mwyn sicrhau tegwch, ni allai'r Awdurdod ond ystyried mesurau lliniaru: a) y gellid eu cymhwyso'n unffurf ar draws y cynllun; b) na fyddai'n lleihau'r dyraniadau am ddim ar gyfer unrhyw safle yn ETS y DU, o gymharu â'r opsiwn 'gwneud dim'; c) a fyddai'n lleihau'r risg o or-ddyrannu dyraniadau am ddim drwy gynhyrchu HALs anghynrychioliadol o uchel.

Gan ddilyn yr egwyddorion hyn a chydnabyddiaeth yr Awdurdod ynghylch effeithiau posibl COVID-19 ar lefelau gweithgarwch yn ystod y cyfnod gwaelodlin, rydym wedi penderfynu caniatáu i weithredwyr ETS y DU ddewis hepgor data gweithgarwch ar gyfer blwyddyn 2020 neu flynyddoedd 2020 a 2021 er mwyn pennu HAL ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030. Bydd yr

opsiwn ar gael i holl weithredwyr ETS y DU optio i mewn iddo. Bydd gweithredwyr yn gallu nodi a ydynt am eithrio gweithgarwch 2020 neu 2020 a 2021 o HAL ar lefel is-safle yn ystod ail gam y broses ymgeisio am ddyraniadau am ddim (1 Ebrill - 30 Mehefin 2026). Ceir canllawiau ar sut i wneud hyn cyn i ffenestr yr ail gam agor ar 1 Ebrill 2026.

Pennod 2: Meincnodau

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024) ar y dull o ddiweddarau meincnodau a ddefnyddir yn ETS y DU.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r meincnodau cyfredol ar gyfer blwyddyn gynllun 2027, gyda bwriad i fabwysiadu gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE o 2028 i 2030. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac asesu'r opsiynau, daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod methodoleg meincnodi'r UE yn cynnig gwerthoedd mwy cadarn a byddai'n cadw'r elfen o wobr i safleoedd effeithlon a'r cymhelliant i ddatgarboneiddio a osodwyd gan y meincnodau. Fodd bynnag, gan nad yw'r gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE ar gael wrth wneud penderfyniadau, mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r gwerthoedd meincnod cyfredol ar gyfer blwyddyn gynllun 2027, gan sicrhau bod gweithredwyr yn cael y sicrwydd angenrheidiol i gynllunio am y cyfnod dyrannu sydd i ddod.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y berthynas rhwng ETS y DU ac ETS yr UE wrth ddod i'r penderfyniad hwn. Gallai cynnal aliniad â dull yr UE osgoi creu ystumiadau cystadleuol rhwng y naill gynllun a'r llall a chynyddu cysondeb o ran cymhellion datgarboneiddio.

Crynodeb o'r Cynigion

Yn rhan o'r Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim, gofynnodd yr Awdurdod am safbwyntiau ynghylch y dull o ddiweddarau meincnodau cyn y cyfnod dyrannu nesaf. Nod cynigion yr ymgynghoriad oedd cadw meincnodau o fewn cyrraedd, gan sicrhau eu bod yn cynrychioli perfformiad effeithlonrwydd allyriadau y gall safleoedd y DU eu cyflawni, a'u cadw'n uchelgeisiol, gan sicrhau bod meincnodau'n parhau i wobrwyo'r perfformwyr gorau a chymell datgarboneiddio.

Cyflwynodd yr Awdurdod dri opsiwn i benderfynu ar y meincnodau i'w defnyddio yn y cyfnod dyrannu nesaf:

Opsiwn 1: Dim newid i'r meincnodau

Opsiwn "Gwneud Dim" lle byddai meincnodau 2021-2025 yn parhau i fod mewn grym ar gyfer cyfnod dyrannu⁶ 2027-2030. Ni fyddai'r meincnodau'n cael eu diweddarau o gwbl, ac ni fyddai'r gwerthoedd a fyddai'n cael eu defnyddio yn rhoi cyfrif am welliannau i effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan sectorau ers 2018.

Opsiwn 2: Defnyddio meincnodau diweddaraf yr UE ar gyfer 2026

Roedd yr opsiwn hwn yn cynnig gweithredu'r gwerthoedd meincnod a fyddai'n cael eu diweddarau cyn cyfnod dyrannu Cam IV ETS yr UE 2026-2030.

Disgwylir i'r meincnodau UE hyn gael eu diweddarau gan ddilyn yr un fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd cyfredol, ond gan ddefnyddio data diweddar o safleoedd yr UE. Byddai hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan y diwydiant ers cyfrifo'r gwerthoedd meincnod cyfredol. Byddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â dull ETS yr UE, gan leihau ystumiadau cystadleuol i weithredwyr sy'n masnachu â'r UE. Fodd bynnag, ni fyddai data'r DU yn cael eu defnyddio yn niweddariad y meincnod, a allai olygu y byddai'r gwerthoedd yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd nad ydynt ar gael i weithredwyr y DU.

Opsiwn 3: Diweddarau meincnodau sy'n canolbwyntio ar y DU

Roedd yr opsiwn hwn yn cynnig diweddarau meincnodau ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf yn seiliedig ar ddata safleoedd y DU yn unig, i adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan safleoedd yn y DU.

Cwestiynau (Ymgynghoriad ar Adolygu Dyranadau Am Ddim o 2023 – 2024)

7. Ydych chi'n cytuno mai meincnodau yw'r fethodoleg briodol i sicrhau bod lwfansau am ddim yn gwobrwyo'r safleoedd sy'n perfformio orau ac yn cymell datgarboneiddio? (Ydw/Nac ydw Esboniwch eich ateb)
8. Beth yw eich barn ar yr opsiynau a gynigiwyd ar gyfer diweddarau meincnodau ETS y DU?
9. Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt arfaethedig o blaid diweddarau meincnodau drwy ddefnyddio data'r DU yn unig i bennu'r Gyfradd Gostyngiad Blynnyddol (ARR)? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)
10. Os nad ydych yn cytuno â'r fethodoleg a awgrymir, rhowch dystiolaeth atodol i ddangos pam na ddylid mabwysiadu'r fethodoleg honno ac awgrymiadau am fethodoleg arall i ddiweddarau meincnodau.
11. Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch methodolegau amgen y gellir eu defnyddio i ddiweddarau meincnodau ar gyfer is-safleoedd sero y DU.

⁶ Cyfeiriodd yr ymgynghoriad at hyn fel cyfnod dyrannu 2026-2030, oherwydd cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyn i'r Awdurdod gyhoeddi y byddai dechrau'r ail gyfnod dyrannu yn symud i 2027.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 57 o ymatebion i Gwestiwn 7, ac o'r rhain cytunai 49 o ymatebwyr (86%) fod meincnodi yn fethodoleg briodol, nid oedd 6 (11%) yn cytuno, ac nid oedd 2 (3%) yn mynegi barn ond yn cynnig adborth.

O'r ymatebwyr a gytunai mai meincnodi yw'r fethodoleg briodol i sicrhau bod lwfansau am ddim yn gwobrwyo safleoedd sy'n perfformio orau ac yn rhoi cymhelliant i ddatgarboneiddio, awgrymodd 4 y dylai'r Awdurdod sicrhau bod y fethodoleg yn ystyried argaeledd technolegau datgarboneiddio ar draws diwydiant y DU, pwysleisiodd 3 bwysigrwydd alinio ag ETS yr UE a nododd 3 mai nad oedd meincnodau ond yn cymell gwelliannau graddol.

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r datganiad, cododd 2 bryderon ei bod hi'n bosib na fydd gwelliannau graddol a wneir o ganlyniad i gymhelliant y meincnod yn ysgogi newid ystyrlon, a phwysleisiodd 4 na ddylai dyraniadau am ddim ond ymdrin â'r risg dadleoli carbon.

Pwysleisiodd ymatebwyr na fynegodd farn y naill ffordd na'r llall bwysigrwydd ystyried ystumiadau cystadleuol posibl rhwng safleoedd yn y DU a'r UE a allai godi yn sgil newidiadau i'r fethodoleg, ac awgrymu y dylai'r fethodoleg roi cyfrif am y technolegau datgarboneiddio sydd ar gael ar draws diwydiant y DU.

Cafwyd 52 o ymatebion i Gwestiwn 8, ac o'r rhain roedd 10 o ymatebwyr (19%) yn cefnogi Opsiwn 1, 8 o ymatebwyr (15%) yn ffafrio Opsiwn 2, ac 13 o ymatebwyr (25%) yn ffafrio Opsiwn 3. Ni wnaeth 21 o ymatebwyr (40%) fynegi barn, ond rhoi adborth.

O'r ymatebwyr a gefnogai Opsiwn 1, roedd pob ymatebydd yn ystyried ei fod yn cynnig mwy o sicrwydd o'i gymharu â'r opsiynau eraill.

O'r ymatebwyr a gefnogai Opsiwn 2, roedd pob ymatebydd o'r farn ei fod yn darparu'r lefel uchaf o gymhelliant ar gyfer technolegau newydd a datgarboneiddio a'r lefel uchaf o aliniad ag ETS yr UE o'i gymharu ag opsiynau eraill.

O'r ymatebwyr a gefnogai Opsiwn 3, roedd pob ymatebydd o'r farn ei fod yn darparu'r lefel uchaf o degwch ac aliniad ag anghenion y diwydiant o'i gymharu â'r opsiynau eraill.

Cododd ymatebwyr nad oeddent wedi mynegi barn bryderon ynghylch y nifer fach o safleoedd yn ETS y DU, a'r risg y gallai safleoedd effeithiol iawn ddylanwadu ar y meincnodau

Cafwyd 49 o ymatebion i Gwestiwn 9, ac o'r rheiny roedd 22 o ymatebwyr (45%) yn cytuno â'r safbwynt a ffafriwyd, 25 (51%) heb gytuno, a 2 (4%) yn rhoi adborth heb fynegi barn.

O'r ymatebwyr a gytunai â'r safbwynt a gynigiwyd ac a ffafriwyd ar gyfer diweddarau meincnodau drwy ddefnyddio data'r DU yn unig i bennu'r ARR, rhybuddiodd 7 o ymatebwyr ynghylch gwerthoedd ARR uchel, ac o'r ffaith y gallai allanolion ddylanwadu ar werthoedd ARR, roedd 3 o blaid ymgynghori pellach â'r sector yr effeithir arnynt i asesu effeithiau'r fethodoleg, roedd 2 yn

mynegi pryder ynghylch diffyg ystyriaeth o egin-dechnolegau, a 3 yn cefnogi'r dull am ei fod yn defnyddio data cyfredol y DU.

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r safbwynt a gynigiwyd ac a ffafriwyd, cododd 7 o ymatebwyr bryderon nad oedd digon o is-safleoedd i fod yn gynrychioliadol o'r diwydiant, mynegodd 3 bryderon am ostyngiadau i ddyraniadau am ddim cyn gweithredu CBAM y DU, awgrymodd 2 y dylid oedi cyn gweithredu'r safbwynt a ffafir nes bod CBAM y DU yn weithredol, ac roedd 3 yn ffafrio ailgyfrifo meincnodau'n llwyr ar sail data'r DU yn unig, heb wneud defnydd o feincnodau blaenorol yr UE.

Cafwyd 29 o ymatebion i Gwestiwn 10, ac roedd pob un ohonynt yn rhoi adborth ar fethodoleg ARR y DU.

Dyma'r prif bryderon yn gysylltiedig â'r fethodoleg:

- Ei bod hi'n anodd rhoi sylwadau heb gael drafft o'r fethodoleg a gwerthoedd meincnod rhagarweiniol.
- Bod safleoedd anghynrychioliadol yn dylanwadu ar feincnodau presennol.
- Risg o leihau defnyddioldeb meincnodau wrth i gyfleoedd am welliannau graddol leihau.
- Cyfnodau cymharu ARR cul sy'n agored i darfu ar weithrediadau.

Awgrymwyd methodoleg amgen i'w hystyried gan yr Awdurdod, gan gynnwys:

- Cadw meincnodau presennol (Opsion 1), a gefnogwyd gan naw ymatebydd.
- Defnyddio cyfuniad o ddata'r UE a'r DU lle bo maint samplau yn fach.
- Defnyddio data'r UE neu safonau mewnol cydnabyddedig.
- Cynnwys enghreifftiau rhyngwladol lle bo gweithgynhyrchu carbon isel yn fwy sefydledig, ar yr amod bod asesiad yn cael ei gynnal o'r gallu i ailadrodd hynny yn y DU.

Cafwyd 20 ymateb i Gwestiwn 11, ac o'r rhain roedd 6 ymatebydd (30%) yn cefnogi defnyddio data'r UE fel dull wrth gefn, 6 (30%) yn awgrymu na ddylid diweddau'r meincnodau, ac 8 (40%) yn cynnig dulliau amgen.

Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Defnyddio data rhyngwladol eraill, a gefnogwyd gan bedwar ymatebydd.
- Cymhwyso ARR ETS yr UE i drothwyon y DU, a gefnogwyd gan ddau ymatebydd.
- Cymhwyso'r trothwy ARR isaf ar gyfer meincnodau sy'n brin o ddata yn y DU.
- Peidio â diweddaru meincnodau onid oes data ar gael yn y DU.


Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r meincnodau cyfredol ar gyfer blwyddyn gynllun 2027, gyda bwriad i fabwysiadu gwerthoedd meincnod wedi'u diweddaru gan yr UE o 2028 i 2030. Bydd hyn yn sicrhau parhad ac yn rhoi amser ychwanegol i sectorau diwydiannol gynllunio i ddiweddaru meincnodau yn y dyfodol.

Ar ôl asesu'r holl opsiynau, mae'r Awdurdod wedi casglu mai methodoleg meincnodi ETS yr UE sy'n darparu'r fframwaith mwyaf cadarn a chynrychioliadol i adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd a weir gan y diwydiant a chymell datgarboneiddio. Fodd bynnag, nid oedd gwerthoedd meincnodau wedi'u diweddarau gan yr UE ar gael wrth ddod i benderfyniad. Mae'r Awdurdod yn bwriadu mabwysiadu gwerthoedd meincnod diweddaraf yr UE o 2028 ymlaen, yn amodol ar asesiad o'u heffeithiau ar fusnesau'r DU, am weddill y cyfnod dyrannu hyd at 2030.

Dull o Feincnodi ac Amcanion Polisi

Cyfrifwyd y meincnodau cyfredol a ddefnyddir yn ETS y DU drwy ddiweddariad meincnod Cam IV ETS yr UE, nad oedd yn defnyddio data o safleoedd yn y DU. Roedd hyn yn dilyn methodoleg ARR lle cymharwyd perfformiad cyfartalog y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon yn 2016-2017 ar gyfer pob meincnod cynnyrch â meincnod Cam II yr UE, a oedd yn seiliedig ar ddata 2007-2008 ac yn cynnwys data o safleoedd yn y DU. Yna cafodd yr ARR ei chymhwyso hyd at 2022-2023, canolbwynt cyfnod dyrannu 2021-2025. Ar hyn o bryd mae gan ARRs drothwy isafswm ac uchafswm o 0.2% ac 1.6% y flwyddyn, sy'n cyfyngu ar ostyngiadau i feincnodau. Pennwyd ARR o 1.6% i feincnodau â gostyngiadau dwysedd allyriadau cyfartalog o fwy nag 1.6% y flwyddyn ers y data gwaelodlin, tra phennwyd ARR o 0.2% i rai â gostyngiadau cyfartalog o lai na 0.2% y flwyddyn. Caiff y broses hon ei disgrifio yn Ffigur 3 isod.



Ffigur 3 Diagram sy'n disgrifio methodoleg ARR

Mae'r Awdurdod wedi ystyried bwriad y polisi meincnodi, fel y nodwyd yn flaenorol, fel rhan o'r broses benderfynu:

- Bwriad meincnodau yw rhoi cymhellion i ddatgarboneiddio. Mewn egwyddor, caiff safleoedd effeithlon y mae eu heffeithlonrwydd carbon yn nes at y meincnodau eu gwobrwyo am eu perfformiad gan y bydd cyfran fwy o'u hallyriadau wedi'u cynnwys o dan lwfansau am ddim; a bydd gan safleoedd y mae eu heffeithlonrwydd carbon ymhellach

oddi wrth y meincnod gyfran lai o'u hallyriadau wedi'i chynnwys o dan ddyraniadau am ddim.

- Bwriad ARRs yw adlewyrchu dwysedd allyriadau a ragwelir mewn cyfnod dyrannu drwy leihau meincnodau yn ôl y gwelliannau effeithlonrwydd allyriadau a gyflawnir gan y safleoedd sy'n perfformio orau yn y sectorau perthynol. Drwy hyn sefydlir cymhellion cynrychioliadol i ostwng allyriadau.
- Bwriad trothwyon ARR yw sicrhau cysondeb o ran gostyngiadau meincnod. Mae'r trothwy uchaf yn atal meincnodau rhag cael eu gostwng yn ormodol gan y perfformwyr gorau, gan amddiffyn gosodiadau eraill rhag gorfod cyrraedd lefelau perfformiad anghyraeddadwy. Mae'r trothwy gofynnol yn gosod uchelgais sylfaenol ar gyfer gwelliannau i ddwysedd allyriadau ar draws diwydiant, gan sicrhau gostyngiadau meincnod rheolaidd a chynnal cymhelliant i ddatgarboneiddio.

Asesiad o Ddull Meincnodi sy'n canolbwyntio ar y DU

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi mynegi ffafriaeth o blaid meincnodau sy'n canolbwyntio ar y DU, mynegodd llawer bryderon ynghylch maint ac ansawdd y data o gymharu â data'r UE. Codwyd pryderon sylweddol ynghylch cadernid y fethodoleg yn sgil maint cyfyngedig y sampl o safleoedd yn y DU sydd ar gael i gyfrifo ARRs. Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i gynnal asesiad o'r opsiwn, sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a amlygwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad:

- Byddai'r ARR yn cael ei phennu ar gyfer pob meincnod cynnyrch drwy gymharu safle mwyaf effeithlon y DU yn 2016/2017 (y cyfnod a ddefnyddiwyd wrth ddiweddarau'r meincnod blaenorol) a 2022/2023 yn y drefn honno (canolbwynt cyfnod dyrannu 2021-2025).
- Byddai'r ARRs yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar berfformiad y safle mwyaf effeithlon yn y DU fesul meincnod cynnyrch, yn hytrach na'r "10% uchaf", gan fod maint y sampl o safleoedd sydd ar gael i gyfrifo ARRs y DU yn llai nag ar gyfer ARRs yr UE.
- Byddai'r ARRs yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar berfformiad cyfartalog y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon yn y DU ar gyfer meincnodau wrth gefn (gwres a thanwydd), lle bo maint y sampl yn gymharol fawr.
- Byddai'r data o'r safle 'mwyaf effeithlon' yn y DU a ddefnyddir i gyfrifo yn cael eu cynnwys yng nghyfrifiad yr ARR hyd yn oed os yw safleoedd yn wahanol rhwng gwahanol gyfnodau dyrannu, neu os yw'r safle bellach wedi rhoi'r gorau i weithredu.
- Byddai'r ARRs yn cael ei chymhwyso i feincnodau Cam 1 ETS y DU.
- Byddai'r ARRs yn cael eu hallosod o 2017 i 2028 (canolbwynt y cyfnod dyrannu nesaf), gyda throthwyon ARR o 0.3% a 2.5% y flwyddyn.

Asesodd yr Awdurdod ddichonoldeb diweddarau meincnodau drwy ddefnyddio data'r DU yn unig a nododd gyfyngiadau sylweddol yn set ddata safleoedd ETS y DU. Yn benodol, ar gyfer meincnodau lle nad oes ond un safle yn bodoli yn y DU, perfformiad y safle hwnnw fyddai'n pennu'r meincnodau, gan gael gwared ag unrhyw gymhelliant i ddatgarboneiddio ymhellach. Yn fwy cyffredinol, mae'r nifer fach o safleoedd yn golygu ei bod hi'n anodd penderfynu a yw lefelau perfformiad yn cynrychioli'r gorau y gall diwydiant ei gyflawni, gan danseilio meincnodau fel safon effeithlonrwydd. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod meincnodau sy'n canolbwyntio ar y

DU yn llai tebygol na rhai cyfatebol yr UE o adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd cyflawnadwy, o wobrwyo'r safleoedd mwyaf effeithlon mewn modd priodol, neu o roi cymhelliant credadwy i ddatgarboneiddio. Gellir gweld asesiad llawnach o'r opsiwn hwn yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Tyngedfennol yn yr Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ymateb hwn ar GOV.UK.

Casgliad ynghylch y Fethodoleg Meincnodi

Yn dilyn asesiad o'r holl opsiynau, mae'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod yn bwriadu mabwysiadu gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE er mwyn cyfrifo'r dyraniadau am ddim ar gyfer 2028-2030. Mae'r Awdurdod wedi casglu bod maint a graddfa'r data sy'n sail i fethodoleg meincnodi ETS yr UE yn golygu fod y system honno'n darparu fframwaith cadarnach a mwy cynrychioliadol i adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd a wneir gan ddiwydiant a rhoi cymhellion i ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, gan nad oedd gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE ar gael wrth wneud penderfyniadau, mae'r Awdurdod yn cadarnhau y bydd y gwerthoedd meincnod cyfredol yn cael eu defnyddio i gyfrifo dyraniadau am ddim ar gyfer blwyddyn gynllun 2027.

Mae'r UE wedi cadarnhau y bydd yn defnyddio gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau i gyfrifo dyraniadau am ddim rhagarweiniol i'w dosbarthu yn ETS yr UE o 2026 i 2030. Mae parhau i gymhwyso'r un meincnodau â'r rhai a ddefnyddir yn ETS yr UE yn cynnig y fantais ychwanegol o alinio â'r UE o 2028, gan leihau'r risg o greu anghydbwysedd cystadleuol rhwng gweithredwyr y DU a'r UE.

Bydd gwerthoedd meincnod cyfredol yn cael eu diweddarau gan Gomisiwn yr UE⁷ yn seiliedig ar y fethodoleg ARR a ddefnyddiwyd wrth ddiweddarau meincnodau yn 2021, drwy ddefnyddio data diweddar gan sefydliadau'r UE. Bydd perfformiad cyfartalog y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon yn 2021-2022 yn cael ei gymharu â pherfformiad cyfartalog y 10% o safleoedd mwyaf effeithlon yn 2016-2017 ar gyfer pob un o'r pum deg dau o feincnodau cynnyrch a'r meincnodau wrth gefn. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar ddata cyfredol, ledled yr UE, o sampl mwy o safleoedd o gymharu â'r DU, gan olygu bod y fethodoleg yn fwy cadarn na diweddariad i feincnodau sy'n canolbwyntio ar y DU. Mae'r Awdurdod o'r farn y bydd y fethodoleg a ddefnyddir i ddiweddarau meincnodau'r UE yn parhau i adlewyrchu gwelliannau effeithlonrwydd sy'n gyflawnadwy gan ddiwydiant, yn gwobrwyo safleoedd effeithlon ac yn rhoi cymhellion i datgarboneiddio.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd meincnodau'r UE yn cael eu diweddarau drwy ddefnyddio data allyriadau a gyflwynir gan weithredwyr y DU; gan hynny, ni fydd perfformiad diwydiant y DU o ran effeithlonrwydd yn cael ei adlewyrchu yn y meincnodau sydd wedi'u diweddarau. Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu'r agwedd hon, ac yn parhau i archwilio cyfleoedd i gynnwys data o ddiwydiant y DU wrth ddiweddarau meincnodau yn y dyfodol.

⁷ Mae Comisiwn yr UE hefyd wedi diweddarau rhai diffiniadau o feincnodau a therfynau system. Disgrifir y rhain ym Mhennod 4, ac ni fydd yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno unrhyw ddata ychwanegol i fodloni'r diffiniadau newydd hyn ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030.

Pennod 3: Y Rhestr Dadleoli Carbon

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024) a'r Ymgynghoriad Dadleoli Carbon (Rhagfyr 2024 – Mawrth 2025). Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnwys opsiynau ynghylch pa restr y dylid ei defnyddio i bennu'r risg o ddadleoli carbon o 2027, penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno haenau i'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (CLEF) neu'r Ffactor Cywiro Traws-sector (CSCF) ai peidio a phenderfyniad ynghylch a ddylid dwyn ymlaen y dyddiad dirymu graddol ar gyfer dyraniadau am ddim i sectorau heb risg o ddadleoli carbon.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw'r rhestr dadleoli carbon gyfredol⁸, peidio cyflwyno haenau i'r CLEF na'r CSCF na dwyn ymlaen y dyddiad dirymu graddol ar gyfer dyraniadau am ddim i sectorau heb risg o ddadleoli carbon.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac asesu'r opsiynau, daeth yr Awdurdod i'r casgliad bod y rhestr dadleoli carbon gyfredol yn seiliedig ar setiau data cadarn ac yn parhau i fod yn gynrychioliadol o risg diwydiant y DU. Mae'r Awdurdod hefyd yn hyderus y bydd nifer addas o lwfansau ar gael o fewn cap y diwydiant, felly nid oes angen haenau na diddymu'n fuan er mwyn targedu dyraniadau am ddim yn well. Bydd y penderfyniadau hyn yn sicrhau bod diwydiant yn parhau i gael ei gefnogi drwy ddyraniadau am ddim, gan leihau'r risg o ddadleoli carbon a rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i alluogi busnesau'r DU i fuddsoddi mewn datgarboneiddio.

Crynodeb o'r Cynigion

Yn rhan o'r Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim, nododd yr Awdurdod gynigion yn 2023 a 2024 i ddiwygio'r Rhestr Dadleoli Carbon a thargeddu dyraniadau am ddim yn well o'r ail gyfnod dyrannu sy'n dechrau yn 2027. Nod y cynigion hyn oedd targedu cymorth yn well at y sectorau lle ceir y mwyaf o risg o ddadleoli carbon.

Cyflwynwyd y prif gynigion canlynol:

Opsiynau ar gyfer Penderfynu ar y Rhestr Dadleoli Carbon o 2027

Cyflwynodd yr Awdurdod ddau opsiwn ar gyfer pennu'r Rhestr Dadleoli Carbon o'r ail gyfnod dyrannu:

- Rhestr ddiwygiedig yn seiliedig ar ddata penodol i'r DU wedi'i ddiweddarau a methodoleg Dangosydd Dadleoli Carbon (CLI) newydd.
- Cadw'r rhestr bresennol, yn seiliedig ar ddata hanesyddol ledled yr UE

⁸ Ac eithrio newidiadau dros dro a wnaed ar gyfer 2024-2026.

Gofynnwyd i randdeiliaid roi sylwadau ar rinweddau cymharol pob dull, gan gynnwys tryloywder, cywirdeb, ac ymarferoldeb gweinyddol.

Haenu'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (CLEF) neu'r Ffactor Cywiro Traws-Sector (CSCF)

Gofynnodd yr Awdurdod am farn ynghylch a ddylid cyflwyno haenau i'r CLEF, gan alluogi lefelau gwahaniaethol o ddyraniadau am ddim yn seiliedig ar faint y risg o ddadleoli carbon.

Yn ogystal â hyn, ystyriodd yr Awdurdod y posibilrwydd o gymhwyso'r CSCF pe bai'r galw am ddyraniadau am ddim yn fwy na chap y diwydiant. Er na chynigiodd yr Awdurdod newidiadau ar unwaith i fecanwaith y CSCF, ymrwymodd i fonitro lefelau dyrannu ac ystyried mesurau lliniaru os oes angen.

Dyddiad Diddymu Graddol ar gyfer Sectorau Heb Risg o Ddadleoli Carbon

Cynigiodd yr Awdurdod dwyn y dyddiad diddymu graddol ymlaen ar gyfer dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau na thybir bod risg iddynt ddadleoli carbon o dan fethodoleg ddiwygiedig y CLI.

Byddai'r newid hwn yn dod i rym o ddechrau'r ail gyfnod dyrannu yn 2027, yn hytrach nag ar ddyddiad diweddarach, gan sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu cadw ar gyfer sectorau lle ceir tystiolaeth o amlygiad i ddadleoli carbon.

Cwestiynau (Ymgynghoriad ar Adolygu Dyraniadau Am Ddim o 2023 – 2024)

17. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod haenu'r rhestr dadleoli carbon er mwyn targedu'r rhai sydd â'r mwyaf o risg o ddadleoli carbon fwyaf.

18. Oes gennych chi farn ar yr egwyddorion y dylai'r Awdurdod eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch dyluniad haenau os ydym yn dewis haenu'r rhestr dadleoli carbon?

19. Uchod, rydym wedi amlinellu tair enghraifft ddangosol o'r modd y gallem haenu'r rhestr dadleoli carbon. Oes gennych chi unrhyw farn ar y rhain? Oes gennych chi farn ar ffyrdd eraill y gellid gwneud hyn?

20. Oes gennych chi farn ynghylch a ddylem haenu'r Ffactor Cywiro Traws-Sector os caiff ei gymhwyso?

Cwestiynau (o Ymgynghoriad Dadleoli Carbon yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim Dadleoli 2024-2025)

1. Ydych chi'n cytuno â'r setiau data a ddefnyddir i gyfrifo dwysedd allyriadau a dwysedd masnach? Os nad ydych chi, esboniwch pam ac awgrymu setiau data eraill.

2. Ydych chi'n cytuno â'r dulliau wrth gefn sydd wedi cael eu defnyddio lle roedd bylchau wedi parhau yn y setiau data dwysedd masnach ac allyriadau? Os nad ydych chi, esboniwch pam ac awgrymu dulliau eraill.

3. Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a ddefnyddir i ddiweddarau gwerthoedd trothwy'r Rhestr Dadleoli Carbon h.y. 0.14 a 0.74, a bennwyd ar sail Opsiwn A a ddisgrifir uchod? Os nad ydych chi, esboniwch pam ac awgrymu methodoleg arall.
4. Ydych chi'n cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd Dangosyddion Dadleoli Carbon (CLI)?
5. Os nad ydych chi'n cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd CLI, esboniwch pam ac awgrymu unrhyw ddata ychwanegol (sy'n bodloni'r meini prawf asesu). Os nad ydych chi, ac yr hoffech gynnig methodoleg neu set ddata arall nad yw'n bodloni'r meini prawf asesu, esboniwch pam y dylid defnyddio'r data hyn.
6. Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt a ffafrir gan yr Awdurdod i fabwysiadu dull 'ychwanegol' ar gyfer y Rhestr Dadleoli Carbon, os bydd data newydd a ddarperir drwy'r ymgynghoriad hwn yn newid y gwerthoedd CLI cyfredol? Os nad ydych chi, esboniwch pam ac awgrymu dull arall.
7. A oes unrhyw ffeithiau neu faterion eraill yr hoffech i'r Awdurdod eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y Rhestr Dadleoli Carbon?
8. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir yn y Bennod hon, ydych chi'n meddwl y dylem ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon i'w seilio ar ddata'r DU neu a fyddai'n well gennych barhau i ddefnyddio'r Rhestr Dadleoli Carbon bresennol? Esboniwch eich ateb.

Crynodeb o'r ymatebion

Ymatebion i'r Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim

Ymgynghorodd Awdurdod ETS y DU ar amrywiaeth o gynigion ynghylch haenu'r CLEF a'r CSCF. Mae'r adran hon yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid i gwestiynau 17 i 20 o ymgynghoriad mis Rhagfyr 2023 ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim. Gellir gweld crynodeb o ymatebion i gwestiynau eraill a ofynnwyd yn y bennod hon ym Mhennod Un o ymgynghoriad Dyraniadau Am Ddim Dadleoli Carbon 2024.

Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn am haenu'r rhestr dadleoli carbon. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal: Roedd 21 (32%) o blaid cynnwys haenau ar y Rhestr Dadleoli Carbon, roedd 21 (32%) yn gwrthwynebu hynny, ac ni fynegodd 24 (36%) unrhyw farn.

Nododd cefnogwyr yr haenu sawl mantais. Roedd tri o'r farn y byddai'n ffordd o ymdrin â phroblemau'n gysylltiedig ag achosion ffiniol, yn enwedig rhai â gwerthoedd CLI rhwng 0.15 a 0.2. Awgrymodd dau ymatebydd y dylid integreiddio haenau â CBAM y DU, tra bod 2 arall wedi mynegi pryder y gallai'r amddiffyniad i sectorau ffiniol fod yn annigonol o beidio gwneud hynny. Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys cydnabod safleoedd â chynlluniau datgarboneiddio credadwy a rhoi cyfrif am dechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Ymhlith y rhai oedd yn gwrthwynebu, cododd 5 bryderon ynghylch y fethodoleg a chywirdeb y rhestr. Nododd tri ddiffyg hyblygrwydd er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol, ac amlygodd eraill risgiau fel cosbi safleoedd ffiniol, ystumiau'r farchnad, y baich gweinyddol, a diffyg aliniad â CBAM y DU.

O'r 66 a atebodd gwestiwn 18 ar egwyddorion ar gyfer dylunio haenau, dim ond 24 (36%) a roddodd ateb uniongyrchol. Pwysleisiodd naw (38%) fod angen alinio unrhyw ddull haenu â CBAM y DU. Tynnodd pedwar (17%) sylw at y risg o 'ymyl clogwyn' ar gyfer sectorau ffiniol, a chynghorodd 4 arall (17%) y dylid rhoi'r flaenoriaeth i symrlwydd, cywirdeb a sicrwydd wrth haenu. Argymhellodd dau ymatebydd (8%) y dylid cynnal asesiadau effaith economaidd ar gyfer sectorau sy'n derbyn dyraniad llawn ar hyn o bryd ac a allai golli cefnogaeth o gyflwyno haenau. Roedd 2 (8%) arall yn annog ystyriaeth o ddiogelu ffynonellau ynni a chydnerthedd cenedlaethol, tra bo 2 (8%) arall yn awgrymu y dylid cynnwys ystyriaeth o opsiynau datgarboneiddio a thechnolegau newydd. Mynegodd un ymatebydd (4%) bryder ynghylch gwyro oddi wrth yr UE a goblygiadau hynny o ran cysylltu.

Roedd Cwestiwn 19 yn gofyn i ymatebwyr roi sylwadau ar dri dyluniad haenu dangosol: haenau cyfartal, haen risg uchel fawr, a dull sy'n seiliedig ar gontinwwm. O'r ymatebion a oedd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol, mynegodd saith (54%) eu bod yn ffafrio graddfa symudol neu gontinwwm (Enghraifft 3 o Ddyluniad Haenau), er bod un yn rhybuddio y gallai hyn adael yr Awdurdod yn agored i her gyfreithiol. Roedd chwech o ymatebwyr (46%) yn ffafrio dyluniad gyda haen fawr ar gyfer safleoedd risg uchel (Enghraifft 2 o Ddyluniad Haenau).

Roedd themâu eraill yn cynnwys pwysigrwydd ystyried mynediad at dechnolegau datgarboneiddio (a godwyd gan dri ymatebydd), cyfuno haenau CLEF a CSCF i osgoi ymylon dibyn, ac un awgrym i ddiddymu dyraniadau am ddim yn llwyr o blaid CBAM y DU.

Atebodd pedwar deg pump o ymatebwyr gwestiwn 20 ar haenu'r CSCF. Roedd deuddeg (27%) o blaid cynnwys haenau yn y CSCF, 16 (36%) yn gwrthwynebu hynny, ac ni fynegodd 17 (38%) unrhyw farn.

Ymhlith y rhai a oedd o blaid, mynegodd saith (58%) gefnogaeth gyffredinol, ond argymhellodd 3 (25%) y dylid ystyried cyfleoedd datgarboneiddio. Awgrymodd un ymatebydd (8%) y dylid cymhwyso'r CSCF i sectorau risg isel yn unig, roedd un arall (8%) yn ffafrio haenu'r CSCF dros y CLEF, ac roedd un (8%) yn cynnig haenu ar sail effeithlonrwydd cwmnïau.

O'r rhai oedd yn gwrthwynebu, mynegodd 10 (63%) wrthwynebiad cyffredinol, roedd 3 (19%) yn credu y byddai haenu'n cymhlethu'r ETS ac yn creu ansicrwydd, a dadleuodd 3 (19%) na ddylid ond haenu un o'r CLEF neu'r CSCF, gan ffafrio'r CLEF.

Ymhlith y rhai na fynegodd farn y naill ffordd na'r llall, gofynnodd 5 (29%) am ragor o wybodaeth, gan gynnwys eglurder ynghylch y Rhestr Dadleoli Carbon a safle'r sectorau. Galwodd un ymatebydd (6%) am ffenestr ymgynghori o 12 wythnos. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys gwrthwynebiad i'r CSCF mewn egwyddor, yr angen i osgoi ymylon dibyn, a phwysigrwydd tryloywder, symrlwydd, ac aliniad â CBAM.

Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Dadleoli Carbon

Derbyniodd Awdurdod ETS y DU ystod eang o safbwyntiau mewn ymateb i Ymgynghoriad Dadleoli Carbon Adolygiad Dyraniadau Am Ddim 2024. Mae'r adran hon yn crynhoi adborth rhanddeiliaid i gwestiynau un i wyth o'r ymgynghoriad hwnnw.

Cafwyd 41 o ymatebion i gwestiwn un ar setiau data a ddefnyddir i gyfrifo allyriadau a dwysedd masnach. O'r rheini, roedd 15 (37%) yn cytuno â'r setiau data a ddefnyddiwyd, 20 (49%) yn anghytuno, ac nid oedd 6 (15%) yn cytuno nac yn anghytuno. Croesawodd cefnogwyr y defnydd o ddata penodol i'r DU ac roeddent o'r farn fod y data hynny'n fwy cynrychioliadol na data'r UE. Fodd bynnag, cododd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch cadernid a thryloywder y data, yn enwedig y defnydd o ffynonellau wrth gefn, cynnwys blynyddoedd yr effeithiwyd arnynt gan COVID, a chywirdeb ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros a dwysedd masnach. Galwodd sawl sector am fwy o eglurder ynghylch y ffynonellau data a'r fethodoleg, ac roedd rhai'n cwestiynu a oedd y data yn rhoi adlewyrchiad digonol o'r risg dadleoli carbon.

Cafwyd 25 o ymatebion i gwestiwn dau ar ddulliau wrth gefn. O'r rhain, roedd 12 (48%) yn cytuno â'r dulliau wrth gefn a ddefnyddiwyd, 9 (36%) yn anghytuno, a 4 (16%) heb gytuno nac anghytuno. Roedd y rhai a oedd o blaid yn cydnabod bod angen data wrth gefn am resymau ymarferol yn absenoldeb opsiynau eraill cadarn, ac yn ystyried bod y dull yn rhesymol oherwydd yr amgylchiadau. Fodd bynnag, roedd eraill yn dadlau bod data wrth gefn yn creu gwallau ac y dylai sectorau fod wedi cael cyflwyno eu data eu hunain. Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai asesiad ansoddol ail lefel wedi bod yn well na dibynnu ar ddata wrth gefn.

Cafwyd 28 o ymatebion i gwestiwn tri ar y fethodoleg a ddefnyddir i bennu trothwyon CLI. Roedd deuddeg yn cytuno (43%) â'r dull, 11 (39%) yn anghytuno, ac nid oedd 5 (18%) yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y rhai a oedd o blaid yn cefnogi'r dull dosbarthu ac yn croesawu ei eglurder. Fodd bynnag, roedd y rhai a feirniadau'r dull yn dweud ei fod yn fympwyol ac nad oedd yn rhoi adlewyrchiad digonol o'r risg wirioneddol o ddadleoli carbon. Galwodd sawl ymatebydd eto am asesiad ansoddol ail lefel a chodi pryderon ynghylch defnyddio data wrth gefn wrth bennu trothwyon.

Cafwyd 39 o ymatebion i gwestiwn pedwar ar y gwerthoedd CLI rhagarweiniol. O'r rhain, roedd 13 (33%) yn cytuno, 23 (59%) yn anghytuno, a 3 (8%) heb gytuno nac anghytuno. Roedd y rhai a oedd yn cytuno fel arfer o'r farn fod eu sector wedi'i ddosbarthu'n briodol fel un a chanddo risg. Cyfeiriodd y rhai a oedd yn anghytuno at ddata annibynadwy, diffyg tryloywder a'r ffaith nad oedd asesiad ansoddol ail lefel yn cael ei gynnal. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder nad oedd gwerthoedd y CLI yn cyd-fynd â'u dealltwriaeth hwy o amlygiad eu sector i ddadleoli carbon.

Yng nghwestiwn pump, cafwyd 31 o ymatebwyr a roddodd sylwadau pellach am werthoedd CLI. Ailadroddodd llawer bryderon ynghylch dibynadwyedd y data, yn enwedig ffigurau dwysedd masnach a GVA. Cyflwynodd sawl sector ddata ychwanegol, ond ni lwyddodd yr un ohonynt i basio meini prawf asesu'r Awdurdod. Cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch effaith bosibl

haenu a'r angen i ystyried risgiau dadleoli ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Galwodd nifer o randdeiliaid am fwy o dryloywder a chynnwys masnach yr UE yng nghyfrifiad y CLI.

Cafwyd cefnogaeth gref o blaid y safbwynt a ffafriwyd gan yr Awdurdod i fabwysiadu dull ychwanegol fel yr awgrymwyd yng nghwestiwn chwech. O blith 34 o ymatebion, roedd 32 (94%) yn cytuno, 1 (3%) yn anghytuno, ac 1 (3%) heb gytuno nac anghytuno. Croesawodd yr ymatebwyr yr hyblygrwydd i gynnwys sectorau ychwanegol pe bai data newydd ar gael, ond pwysleisiwyd yr angen am feini prawf clir, ymgynghori pellach, a methodoleg gadarn. Nododd rhai y dylai'r dull ychwanegol fod yn amodol ar ansawdd data digonol ac asesiad ansoddol ail lefel.

Cafwyd 38 o ymatebion gan randdeiliaid i gwestiwn wyth am y math o restr a ffafrir. Mynegodd dau ddeg tri (61%) eu bod yn ffafrio rhestr penodol i'r DU, 13 (34%) eu bod yn ffafrio cadw'r rhestr UE gyfredol, ac ni fynegodd 2 (5%) ffafriaeth tuag at y naill na'r llall. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhai a gefnogai restr y DU yn nodi amodau, gan gyfeirio at yr angen am ddata cadarnach, aliniad â methodolegau'r UE, ac asesiad effaith pellach. Tynnodd y rhai oedd o blaid y rhestr gyfredol sylw at ei chadernid, ei thryloywder, a'i manteision posibl o ran cysylltu ETS y DU ag ETS yr UE yn y dyfodol.


Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod rhoi ystyriaeth ofalus i ymatebion rhanddeiliaid i Gwestiynau 16–20 ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2023 a Chwestiynau 1–8 o Ymgynghoriad Dadleoli Carbon yr Adolygiad Dyraniadau Am Ddim 2024, ochr yn ochr â'r dystiolaeth ddadansoddol a gyflwynwyd yn adroddiad technegol NERA⁹ ac asesiadau mewnol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae'r Awdurdod wedi penderfynu cadw Rhestr Dadleoli Carbon (CLL) Cam IV ETS yr UE ar gyfer ail gyfnod dyrannu ETS y DU (2027–2030). Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu barn gytbwys ar draws bwriad polisi, cadernid data, hyder rhanddeiliaid, cyflawniad, ac aliniad strategol ag amcanion datgarboneiddio ehangach.

Y Rhestr Dadleoli Carbon

Mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad mai CLL Cyfnod IV ETS yr UE yw'r fframwaith mwyaf cadarn a thryloyw ar gyfer nodi sectorau ac iddynt risg o ddadleoli carbon. Datblygwyd y rhestr drwy ddefnyddio methodoleg dau gam, gan gyfuno dangosyddion meintiol dwysedd masnach ac allyriadau ag asesiad ansoddol ar gyfer sectorau ffiniol. Mae'n defnyddio data ansawdd uchel ar draws yr UE, sy'n cynnwys data'r DU, ac wedi bod yn destun craffu helaeth. Mae'r Awdurdod o'r farn fod rhestr yr UE yn parhau i adlewyrchu proffil risg dadleoli carbon diwydiant y DU, ac yn darparu sylfaen gadarn y ceir dealltwriaeth dda ohoni ar gyfer polisi dyraniadau am ddim.

⁹ <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6760245e0fb02bbe4853ef7d/ukets-nera-technical-report.pdf>



Ffigur 4 Cyfrifiad y Dangosydd Dadleoli Carbon

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y diddordeb gan randdeiliaid mewn datblygu rhestr sy'n benodol i'r DU. Fodd bynnag, roedd y rhestr ddrafft a ddatblygwyd gan NERA yn dibynnu'n fawr ar ddata wrth gefn oherwydd bylchau sylweddol mewn setiau data penodol i'r DU. Achosodd y data wrth gefn hyn i werthoedd CLI gael eu hystumio, gyda rhai sectorau'n ymddangos yn rhy uchel neu'n rhy isel y naill ochr a'r llall i'r trothwy ar gyfer cael eu cynnwys. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad nad oedd y rhestr a ddeilliodd o hyn yn cynnig asesiad mwy dibynadwy na chynrychioliadol o risg dadleoli carbon na rhestr yr UE.

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi mynegi ffafriaeth o blaid rhestr penodol i'r DU, roedd llawer o'r gefnogaeth honno'n amodol. Cododd llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch cadernid y data, eithrio masnach yr UE o gyfrifiad y CLI, a'r ffaith nad oedd asesiad ansoddol ail lefel yn cael ei gynnal. Dim ond lleiafrif o ymatebwyr a gefnogai'r rhestr ddrafft heb unrhyw gafeatau, ac roedd y rhan fwyaf o sectorau a fyddai'n elwa ar restr y DU naill ai'n anghytuno â gwerthoedd y CLI, neu'n cyflwyno data ychwanegol er ystyriaeth. Daeth yr Awdurdod felly i'r casgliad nad oedd consensws ynghylch y rhestr ddrafft, ac nad oedd mandad clir i fwrw ymlaen i'w gweithredu.

Mae cadw rhestr yr UE yn sicrhau parhad i gyfranogwyr ac yn lleihau'r risg y bydd anghydbwysedd cystadleuol yn codi rhwng ETS y DU ac ETS yr UE, a allai arwain at risg dadleoli carbon yn sgil gwyro masnach. Mae'r UE wedi cadarnhau y bydd yn parhau i ddefnyddio'r rhestr gyfredol tan 2031.

Fel rhan o Ymgynghoriad Dadleoli Carbon Adolygiad Dyraniadau Am Ddim 2024, gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno setiau data ychwanegol i'w hystyried, ar yr amod eu bod yn bodloni'r un meini prawf asesu ag a gymhwyswyd yn adroddiad NERA. Roedd y meini prawf hyn yn cynnwys ansawdd data, cwmpas, perthnasedd i'r DU, tryloywder a hirhoedledd. Yn dilyn gwerthusiad gan yr Awdurdod, casglwyd nad oedd yr un o'r setiau data a gyflwynwyd neu y cyfeiriwyd atynt yn bodloni'r holl feini prawf. Gan amlaf, nid oedd y data'n ddigon manwl, nid oedd yn ddigon cyson ar draws yr holl sectorau angenrheidiol, ac nid oedd ar gael i'r cyhoedd i'w ddefnyddio yn lle'r setiau data wrth gefn. Gan hynny, ni symudwyd ymlaen ag unrhyw ddata a gyflwynwyd, ac nid


yw'r Awdurdod o'r farn fod sylfaen ddichonadwy o dystiolaeth ar gael i lunio rhestr ddiwygiedig i'r DU ar hyn o bryd.

Haenu'r Ffactor Agored i Dadleoli Carbon

Mae'r Awdurdod hefyd yn cadarnhau na fydd yn mynd ar drywydd unrhyw un o'r opsiynau haenu yr ymgynghorwyd arnynt. Mae gwaith modelu'n dangos y bydd dyraniadau am ddim yn parhau i fod o dan gap y diwydiant hyd at 2030, ac mae'r penderfyniad i gadw rhestr yr UE yn osgoi'r cynnydd ym maint y dyraniadau a fyddai wedi deillio o fabwysiadu rhestr y DU. Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai cyflwyno haenau heb fod angen clir am hynny yn ychwanegu cymhlethdod ac ansicrwydd i'r broses ddyrannu, heb dargedu dyraniadau'n well.

Haenu'r Ffactor Cywiro Traws-Sector

Fel y disgrifiwyd uchod, mae'r Awdurdod wedi cynnal dadansoddiad o'r tebygolrwydd y bydd lefelau dyraniadau am ddim yn uwch na chap y diwydiant yn y cyfnod dyrannu nesaf o 2027, ac ystyrir mai isel iawn yw'r tebygolrwydd hwn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr Asesiad Effaith. Gan fod y CSCF yn annhebygol o gael ei sbarduno, byddai unrhyw newidiadau i broses y CSCF yn cynyddu cymhlethdod heb greu unrhyw fudd o ran targedu dyraniadau am ddim yn well. Ni fydd yr Awdurdod felly'n cyflwyno haenau i'r CSCF.



Ffigur 5 Diagram dangosol o broses y Ffactor Cywiro Traws-Sector

Ymdriniaeth â Dyraniadau Am Ddim ar gyfer sectorau heb risg

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau y bydd yn cadw at y taflwybr presennol ar gyfer diddymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau y tybir nad oes ganddynt risg o ddadleoli carbon¹⁰, fel y diffinnir yng Ngham IV CLL ETS yr UE. Drwy'r dull hwn, bydd safleoedd sy'n gweithredu mewn

¹⁰Bydd hyn yn cadw at y rheolau fel y'u disgrifir mewn deddfwriaeth bresennol, ac felly nid yw'n berthnasol i is-safleoedd Gwresogi Ardal.

sectorau nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon yn parhau i dderbyn lefel is o ddyraniadau am ddim hyd at 2030. O'r flwyddyn honno bydd y dyraniadau ar eu cyfer wedi'u diddymu'n llwyr.

Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu adborth a dderbyniwyd drwy ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2024, lle dywedodd rhanddeiliaid fod yr ansicrwydd a grëwyd wrth ymgynghori ar restrau dadleoli carbon lluosog wedi cyfyngu ar eu gallu i fuddsoddi'n hyderus. Er mwyn datgarboneiddio drwy ETS y DU, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen buddsoddiad hirdymor, a bod sefydlogrwydd o ran polisi yn hanfodol er mwyn galluogi gweithredwyr i wneud penderfyniadau deallus. Mae cadw at yr amserlen ddiddymu gyfredol, rhoddir y sicrwydd angenrheidiol i sectorau baratoi am amlygiad llawn i'r pris carbon.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi na fydd yr UE yn cyflymu'r broses o ddiddymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau heb risg o ddadleoli. Mae cadw cysondeb â dull yr UE yn helpu i osgoi cyflwyno ystumiadau cystadleuol i sectorau'r DU sy'n cystadlu mewn marchnadoedd rhwngwladol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod ETS y DU yn parhau i fod yn ddull hygred ac effeithiol o ddatgarboneiddio, gan osgoi effeithiau anfwriadol.

Mae diddymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau heb risg o ddadleoli carbon erbyn 2030 yn parhau i fod yn ymrwymiad cadarn. Sefydlwyd y dull hwn yn wreiddiol wrth ddechrau ETS y DU, a chyfathrebwyd yn gyson ynghylch hyn â rhanddeiliaid. Mae'r Awdurdod yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn a bydd yn parhau i ddarparu eglurder a chefnogaeth i weithredwyr yr effeithir arnynt wrth i'r broses ddiddymu fynd rhagddi.

Pennod 4: Ffactorau Ychwanegol ar gyfer Cyfrifo Dyraniad Am Ddim – Mynediad at Dechnolegau Datgarboneiddio

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodwyd yn yr Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024) ynghylch mynediad at dechnolegau datgarboneiddio.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â datgyfuno meincnodau na diwygio diffiniadau o feincnodau i roi cyfrif am fynediad at dechnolegau datgarboneiddio. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac asesu'r opsiynau, casglodd yr Awdurdod fod y fethodoleg meincnodi bresennol yn atal safleoedd sydd â mynediad eithriadol at dechnolegau datgarboneiddio rhag effeithio ar y meincnodau.

Crynodeb o'r Cynigion

Un o'r egwyddorion allweddol ar gyfer ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim oedd 'ystyried argaeledd a hygyrchedd technoleg datgarboneiddio'. Ystyriodd yr Awdurdod a allai'r cyfrifiad o ddyraniadau am ddim roi ystyriaeth i argaeledd technoleg datgarboneiddio graddfa fawr, a sut y gallai wneud hynny.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddatblygu ETS y DU (2022), cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai gweithredwyr diwydiant â mynediad cynnar at dechnolegau datgarboneiddio graddfa fawr drwy gynlluniau cymorth y llywodraeth ddod yn llawer mwy effeithlon yn gyflymach na'r rhai a oedd heb y mynediad hwnnw. Roeddent yn pryderu y gallai gweithredwyr sydd â mynediad at dechnolegau datgarboneiddio ar graddfa fawr ystumio meincnodau dyraniadau am ddim, gan eu gwthio o gyrraedd gweithredwyr eraill, neu y gallent gadw eu lefelau o ddyraniadau am ddim a'u gwerthu i greu refeniw ychwanegol, gan ystumio'r gystadleuaeth rhwng gweithredwyr o fewn yr un sector.


Cynigiodd yr Awdurdod adolygu'r pryder hwn gan ddilyn tair egwyddor allweddol a amlinellir isod:

- Rhaid gweithredu'n ofalus yn y maes hwn er mwyn gofalu i beidio nad ydyn yn anfwriadol yn anghymell buddsoddiad wedi'i yrru gan y farchnad mewn technoleg datgarboneiddio graddfa fawr.
- Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar edrych ar yr ystumiadau posibl o fewn y farchnad a gaiff eu creu gan bolisi dyraniadau am ddim, ac a ddylem fynd i'r afael â'r rheiny/sut y gallem wneud hynny.
- Ni ddylai polisi dyraniadau am ddim bennu pa dechnolegau y dylai sectorau droi atynt er mwyn datgarboneiddio.

Archwiliodd yr Awdurdod ddau ddull y gellid eu defnyddio i ystyried unrhyw anghysondebau o ran argaeledd technolegau datgarboneiddio:

Opsiwn 1: Datgyfuno Meincnodau

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar opsiwn i ddatgyfuno meincnodau yn dibynnu a oes gan is-safle fynediad at dechnolegau datgarboneiddio graddfa fawr ai peidio, gan roi safleoedd â mynediad gwahanol at dechnolegau datgarboneiddio ar feincnodau gwahanol fel na fyddant yn cael eu mesur yn erbyn ei gilydd.



Ffigur 6 Diagram yn dangos y dull o ddatgyfuno meincnodau

Opsiwn 2: Cynnwys prosesau cynhyrchu carbon isel/dim carbon wrth gyfrifo meincnodau

Ymgynghorodd yr Awdurdod hefyd ar opsiwn i ystyried prosesau diwydiannol a chanddynt ond lefelau isel iawn o allyriadau carbon os o gwbl wrth gyfrifo'r meincnod i ostwng y meincnodau ar gyfer cynhyrchu ac annog newid tuag at brosesau mwy effeithlon.

Byddai'r dull hwn yn cael ei weithredu drwy welliannau i feincnodau cynnyrch perthnasol y mae prosesau cynhyrchu carbon isel neu ddim carbon yn bodoli ar eu cyfer a chynnwys eu data effeithlonrwydd allyriadau wrth gyfrifo meincnodau.

Cwestiynau (Ymgynghoriad ar Adolygu Dyraniadau Am Ddim o 2023 – 2024)

21. Oes gennych chi farn ar yr egwyddorion rydyn ni wedi'u hamlinellu er mwyn ystyried technoleg datgarboneiddio?
22. Oes gennych chi farn ynghylch sut y dylai Awdurdod ETS y DU ddiffinio technolegau datgarboneiddio i'w cynnwys yn y gwaith hwn?
23. Uchod rydym wedi amlinellu dwy fethodoleg bosibl ar gyfer sut y gallem ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio wrth gyfrifo FA. Oes gennych chi unrhyw farn ar y dulliau a amlinellir uchod?

24. A oes ffyrdd eraill yr ydych yn meddwl y dylem eu harchwilio i newid y fethodoleg dyraniadau am ddim i ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

25. Ar wahân i ddyraniadau am ddim, a allai'r ETS ddefnyddio dulliau eraill o ystyried mynediad at dechnoleg datgarboneiddio?

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 42 o ymatebion i Gwestiwn 21, ac o'r rhain roedd 33 o ymatebwyr (79%) yn cefnogi'r cynnig i ystyried mynediad at dechnolegau datgarboneiddio a'r egwyddorion arweiniol ar gyfer yr ystyriaeth hon, roedd 7 (17%) yn ei wrthwynebu, ac ni fynegodd 2 (1%) unrhyw farn.

O'r ymatebwyr a gytunodd â'r cynnig, roedd naw yn cefnogi pob egwyddor, a thri yn cefnogi egwyddorion 1 a 3 yn unig, gan bwysleisio pwysigrwydd methodoleg a arweinir gan y farchnad a manteision cynnal marchnad rydd. Tynnodd dau ymatebydd sylw at y ffaith y dylai lleihau dadleoli carbon fod yn egwyddor allweddol. Awgrymodd un ymatebydd ar bymtheg y dylid ystyried y lefelau amrywiol o fynediad at dechnolegau a chefnogaeth y llywodraeth rhwng safleoedd mewn clystyrau diwydiannol a'r rhai mewn lleoliadau gwasgaredig. Pwysleisiodd pump o ymatebwyr rôl Dyraniadau Am Ddim wrth gynllunio buddsoddiadau datgarboneiddio a thynnu sylw at bwysigrwydd hynny er mwyn gwneud prosiectau datgarboneiddio yn hyfyw yn ariannol.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, cafodd y rhesymau canlynol eu nodi: y gallai gynyddu'r baich gweinyddol a/neu gymhlethdod y cynllun.

Roedd 36 o ymatebion i Gwestiwn 22, ac roedd deg o'r ymatebwyr (28%) o blaid diffinio technolegau'n benodol yng nghwmpas y dull hwn, tra bod un ymatebydd ar ddeg (30%) o blaid dull niwtral o ran technoleg, ac ni roddodd 15 (42%) farn benodol ar ddiffinio technolegau datgarboneiddio ond cynnig rhai awgrymiadau i'r Awdurdod eu hystyried.

Ymhlith yr ymatebwyr, roedd rhai'n awgrymu y dylai'r Awdurdod ystyried Lefel Parodrwydd am Dechnoleg (TRL), gan ganolbwyntio'n benodol ar dechnolegau ar lefel 8 (technoleg wirioneddol wedi'i chwblhau a'i chymhwyso drwy brofi ac arddangos) neu'n uwch, a'u hargaeledd masnachol ar raddfa fawr; Argymhellodd 9 ymatebydd mai dim ond technolegau sy'n hygyrch, naill ai drwy gyllid gan y llywodraeth neu sydd ar gael ym mhob rhanbarth, y dylai'r Awdurdod eu hystyried.

Cafwyd 40 o ymatebion i Gwestiwn 23, ac o'r rhain roedd 31 (77%) yn mynegi barn. Ni roddodd naw ymatebydd (22%) farn, gyda 2 yn mynegi nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ffurfio barn.

O'r ymatebwyr a roddodd farn, roedd 12 ymatebydd (39%) yn ffafrio Opsiwn 1, roedd 4 ymatebydd (13%) yn ffafrio Opsiwn 2, ac nid oedd 15 ymatebydd (48%) o blaid y naill ddull na'r llall.

Ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r ddau opsiwn, mynegodd 2 ymatebydd bryderon y gallai gweithredu'r polisi gynyddu'r risg o ddadleoli carbon, roedd 3 o'r farn y byddai'r naill fethodoleg

neu'r llall yn ychwanegu at gymhlethdod y cynllun, a thynnodd 3 ymatebydd sylw at rôl lwfansau am ddim o ran cefnogi achosion busnes a buddsoddiadau ar gyfer prosiectau datgarboneiddio diwydiannol.

Cododd yr ymatebwyr themâu allweddol yn gysylltiedig â'r opsiynau a gynigiwyd. Roedd y themâu a godwyd ar gyfer Opsiwn 1 yn cynnwys:

- Pryderon ynghylch methodoleg gymhleth y dull a gynigiwyd, a allai ohirio gweithredu.
- Yn ffafrio gweithredu'r dull ar ôl 2030.
- Pryderon ynghylch creu is-setiau bach o is-safleoedd, a allai gynyddu cymhlethdod y polisi Dyraniadau Am Ddim.
- Yn ffafrio gweithredu methodoleg sy'n gwahaniaethu rhwng canran yr allyriadau y byddai disgwyl i wahanol brosiectau datgarboneiddio eu cwmpasu.

Roedd y themâu a godwyd ar gyfer Opsiwn 2 yn cynnwys:

- Pryderon ynghylch cosbi safleoedd heb fynediad at dechnolegau datgarboneiddio.
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd o gael cyfradd ostwng lem fel meincnod, gan olygu bod meincnodau'n anghyraeddadwy i rai safleoedd.
- Cymeradwyo'r ffaith bod y dull yn rhoi cymhellant i arloesi drwy ddefnyddio technolegau newydd.

Cafwyd 45 o ymatebion i Gwestiwn 24, ac ni roddodd chwe ymatebydd ar hugain (58%) farn.

O'r rhai a roddodd farn, mynegodd 2 ymatebydd (10%) ei bod hi'n well ganddynt beidio diwygio'r fethodoleg meincnodi. Awgrymodd chwech o ymatebwyr (32%) y dylid ystyried dull allyriadau tybiedig. Byddai'r dull hwn yn tybio nad yw'r un safle yn defnyddio unrhyw dechnoleg datgarboneiddio, ac yn addasu eu data allyriadau i adlewyrchu'r diffyg mesurau effeithlonrwydd. Cynigiodd tri ymatebydd (16%) ddull a fyddai'n dosbarthu lwfansau ychwanegol i safleoedd nad ydynt yn derbyn cefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer defnyddio technolegau datgarboneiddio. Soniwyd yn benodol am dargedu safleoedd sydd wedi'u lleoli y tu allan i glystyrau diwydiannol. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn hefyd mai dim ond ar gyfer safleoedd sy'n derbyn cymorth gan y llywodraeth i ddefnyddio technolegau datgarboneiddio y dylid lleihau meincnodau.

Cafwyd 25 o ymatebion i Gwestiwn 25, ac awgrymodd 17 o'r ymatebwyr (68%) ddulliau eraill yn lle'r rhai a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ac ni chynigiodd 8 o'r ymatebwyr (32%) unrhyw opsiwn arall.

O'r rhai a gynigiodd ddulliau eraill, awgrymodd 11 o ymatebwyr (65%) y dylai'r Llywodraeth roi rhagor o gymorth ariannol i'r diwydiant ddefnyddio technolegau datgarboneiddio drwy Awdurdod ETS y DU. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai'r cyllid hwn ddeillio o gronfeydd dyraniadau am ddim neu refeniw arwerthu, gan gynnig ystyried dull tebyg i Gronfa Arloesi'r UE. Ni awgrymodd yr ymatebwyr y gallai'r cymorth hwn ddeillio o ddosbarthu lwfansau ychwanegol am ddim.

Ymateb yr Awdurdod

Mae Awdurdod ETS y DU wedi ystyried y cynigion ynghylch mynediad at dechnolegau datgarboneiddio ar sail methodoleg meincnodi sy'n canolbwyntio ar y DU. Ni fyddai'r cynigion hyn yn berthnasol i feincnodau diweddaraf yr UE a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030, fel y nodir ym Mhennod 2.

Mae Awdurdod ETS y DU wedi penderfynu peidio datgyfuno meincnodau dyraniadau am ddim na diwygio'r diffiniadau o feincnodau i gynnwys prosesau carbon isel neu ddim carbon wrth gyfrifo i roi cyfrif am fynediad at dechnolegau datgarboneiddio ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030. Bydd yr Awdurdod hwn yn parhau i adolygu'r newidiadau hyn ar gyfer ymarferion i osod meincnodau yn y dyfodol.

Yn yr ymgynghoriad, cyfeiriodd yr Awdurdod at sawl her yn gysylltiedig â'r opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt, a gofyn i weithredwyr awgrymu dulliau eraill. O'r ymatebion ni wnaed unrhyw awgrymiadau y gellid eu cyflawni trwy newid y fethodoleg dyraniadau am ddim. Disgrifir yr heriau a nodwyd yn yr ymgynghoriad isod:

- Byddai'r ymagwedd at Opsiwn 1 yn cyflwyno methodoleg newydd a allai fod yn heriol i'w gweithredu, yn sgil nifer fach o safleoedd yn y DU a'r angen am ddata effeithlonrwydd allyriadau wedi i dechnolegau datgarboneiddio gael eu gosod, nad ydynt o bosib yn gydamserol â'r cyfnodau adrodd neu ddyrannu.
- I weithredu Opsiwn 1, efallai y bydd angen datblygu methodoleg gadarn sy'n gwahaniaethu rhwng % yr allyriadau y disgwylir i wahanol dechnolegau eu cynnwys, er mwyn sicrhau nad yw'r dull yn cael effaith anghymesur ar safleoedd amrywiol. Gallai fod yn anodd dylunio'r fethodoleg hon i fod yn hyblyg ac yn gydnaws ag unrhyw bolisi a weithredir yn y dyfodol.
- Gallai dull Opsiwn 1 leihau'r cymhelliant i ddatgarboneiddio a osodir gan y meincnodau ac ystyried na fyddai safleoedd llai effeithlon yn cael eu monitro mwyach yn erbyn y safleoedd mwyaf effeithlon mewn sector penodol.
- Gan mai cyfyngedig yw'r defnydd o brosesau cynhyrchu carbon isel iawn neu ddim carbon ar draws y diwydiant, rhagwelwyd mai bach fyddai effeithiau dull Opsiwn 2 ar feincnodau yng nghyfnod dyrannu 2027-2030.

Cynhaliodd Awdurdod ETS y DU asesiad o'r risg bosibl y gallai defnydd cynnar o dechnolegau datgarboneiddio gan rai safleoedd wella eu perfformiad effeithlonrwydd yn sylweddol a chael effaith anghymesur ar werthoedd meincnod, ar sail data'r DU. Gallai hynny olygu bod meincnodau'n llai cyraeddadwy i safleoedd eraill â mynediad cyferbyniol i dechnolegau, a chynnydd eu hamlygiad i'r pris carbon.

Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y cynnig i weithredu diweddariad i feincnodau sy'n canolbwyntio ar y DU. Drwy'r opsiwn hwn, byddai meincnodau'n cael eu diweddarw drwy fethodoleg ARR, yn seiliedig ar ddata effeithlonrwydd allyriadau hanesyddol o safleoedd yn y DU o 2016-17 a 2022-2023. O ganlyniad i hyn, ni fyddai gostyngiadau mewn allyriadau a gyflawnir

ar ôl 2023, fel rhai sy'n deillio o ddefnydd o dechnoleg datgarboneiddio graddfa fawr posibl, yn cael eu hadlewyrchu yn y meincnodau newydd.

Yn ogystal â hynny, mae methodoleg yr ARR yn cynnwys trothwyon uchaf ac isaf i sicrhau bod meincnodau'n parhau i fod yn gymesur â pherfformiad y diwydiant. Cymhwysir trothwy ARR uchaf (1.6% o dan y cynnig am feincnodau sy'n canolbwyntio ar y DU) lle bo dwysedd allyriadau wedi gostwng yn gyflymach, gan atal gostyngiadau gormodol yng ngwerthoedd meincnodau. Mae'r dull hwn yn helpu i leihau'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer safleoedd llai effeithlon gan barhau i adlewyrchu'r potensial i ddatgarboneiddio ym mhob sector.

Daethom i'r casgliad yn ein hasesiad nad oes tystiolaeth o ddefnydd eang o dechnolegau datgarboneiddio graddfa fawr ar safleoedd diwydiannol y DU a allai gael effaith sylweddol ar werthoedd meincnod. Gan hynny, drwy fethodoleg sy'n canolbwyntio ar y DU, ni fyddai unrhyw risg bod rhai sy'n mabwysiadu'r dechnoleg yn gynnar yn gosod meincnodau anghyraeddadwy ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf. Ceir rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith ar GOV.UK a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae'r Awdurdod wedi penderfynu defnyddio gwerthoedd meincnod wedi'u diweddarau gan yr UE ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030. Er mwyn sicrhau bod ETS y DU yn parhau i fod yn ymatebol i ddatblygiadau polisi yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ystyried tystiolaeth o'r modd y mae'r defnydd o dechnoleg yn rhyngweithio â dyraniadau am ddim, ac ystyried y goblygiadau i gyfranogwyr ETS y DU, er mwyn cynnal cynllun teg ac effeithiol cyn ymarferion gosod meincnodau yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn nodi bod ETS yr UE wedi diwygio'r diffiniadau a ffiniau'r systemau ar gyfer meincnodau cynnyrch "mwyn sinter", "metel poeth", "clincer sment llwyd", "clincer sment gwyn", "meinwe", "lludw soda", "cynhyrchion purfa", "dur carbon EAF", "dur aloi uchel EAF", "castio haearn", "gwlan mwynau", "bwrdd plaster", "du carbon", "amonia", "cracio ager", "aromatigau", "styren", "hydrogen", "nwy synthesis" ac "ethylen ocsid/ethylen glycolau" i gryfhau cymhellion i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella effeithlonrwydd ynni, a sicrhau na cheir unrhyw ystumiadau cystadleuol negyddol yn achos technolegau newydd a phresennol. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y data y mae gweithredwyr yr UE wedi'u hadrodd wrth Gomisiwn yr UE, a fydd yn cael eu defnyddio i ddiweddarau meincnodau cyfredol, fel y disgrifir ym Mhennod 2. Gan na fydd data'r DU yn cael eu defnyddio i ddiweddarau'r meincnod, ac er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a'r costau ar weithredwyr y DU, nid yw Awdurdod ETS y DU yn mabwysiadu'r newidiadau hyn cyn cyfnod dyrannu 2027-2030.

Pennod 5: Ffactorau Ychwanegol er mwyn Cyfrifo Dyraniadau Am Ddim – Amodau

Mae'r bennod hon yn trafod cynigion a nodwyd yn ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2023 ynghylch y posibilrwydd o weithredu amodau ar gyfer dyraniadau am ddim.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chyflwyno amodau ar gyfer y cyfnod dyrannu am ddim sy'n dechrau yn 2027. Mae hyn mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ac i sicrhau cefnogaeth barhaus i'r diwydiant rhag y risg o ddadleoli carbon. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad y byddai cyflwyno amodau wedi achosi risgiau o ran gweithredu na fyddai buddion amgylcheddol posibl yn eu gwrthbwysu. Bydd Awdurdod ETS y DU yn parhau i ystyried amodau ar gyfer cyfnodau dyrannu am ddim yn y dyfodol.

Crynodeb o'r Cynigion

Yn rhan o Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2023, gofynnodd yr Awdurdod am farn ar y posibilrwydd o weithredu amodau ar gyfer dyraniadau am ddim.

Mae amodau cadarnhaol yn canolbwyntio ar wobrwyo safleoedd sy'n fwyaf effeithlon neu'n arloeswyr o fewn eu sector. Gallai hyn olygu rhoi dyraniadau am ddim ychwanegol i weithredwyr neu ddiogelu eu lefelau presennol o ddyraniadau am ddim drwy eu heithrio o brosesau a allai leihau eu dyraniadau. Nod amodau negyddol yw rhoi cymhellion i ddatgarboneiddio drwy beidio â rhoi, neu leihau, dyraniadau am ddim i weithredwyr nad ydynt yn mynd ati'n weithredol i leihau eu hallyriadau.

Gellir defnyddio amodau i sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu dyrannu i safleoedd sy'n ymwneud yn weithredol ag ymdrechion datgarboneiddio. Drwy hyn, gallai amodau helpu i fynd i'r afael â phryderon bod dyraniadau am ddim yn amddiffyn rhai diwydiannau'n ormodol rhag effaith lawn fwriadedig pris carbon ac yn gwario'r cymhelliant i fuddsoddi mewn gwelliannau tymor hwy.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar dri amod enghreifftiol a oedd yn canolbwyntio ar ysgogi datgarboneiddio drwy beidio â rhoi, neu leihau, dyraniadau am ddim i weithredwyr nad ydynt yn mynd ati'n weithredol i ostwng eu hallyriadau.

Dyma'r tri amod enghreifftiol a gynigiwyd:

Opsiwn Dylunio 1	Opsiwn Dylunio 2	Opsiwn Dylunio 3
Lleihau dyraniadau am ddim i safle ar sail swm a bennwyd ymlaen llaw (er enghraifft 10%) os nad yw safle wedi gostwng unrhyw allyriadau nag arbed unrhyw adnoddau dros gyfnod penodol o amser.	Eithrio'r safleoedd mwyaf effeithlon rhag unrhyw bosibilrwydd o gymhwyso CSCF. Gallai'r opsiwn hwn ddiffinio'r safleoedd mwyaf effeithlon fel y rhai sy'n gweithredu ar lefel y meincnod ac yna sicrhau na fyddai CSCF yn achosi gostyngiad i ddyraniadau am ddim y safleoedd hyn.	Mynnu bod gan safleoedd gynllun datgarboneiddio ar waith, neu ceir gostyngiad a bennir ymlaen llaw (e.e. 10%) i'w dyraniadau am ddim.

Cwestiynau (O Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2023 – 2024)

26. Oes gennych chi farn ynghylch a ddylai'r Awdurdod gyflwyno amodau, sy'n gysylltiedig ag ymdrechion datgarboneiddio, ar gyfer derbyn dyraniadau am ddim?

27. Rydym wedi amlinellu tri dyluniad dangosol uchod o amodau ar gyfer dyraniadau am ddim. Oes gennych chi farn ynghylch a ddylem gyflwyno unrhyw un o'r opsiynau hyn a dyluniad yr opsiynau, ac ydych chi'n ffafrio unrhyw un/rai o'r opsiynau a nodwyd?

28. Oes gennych chi farn ar amodau amgen y dylai'r Awdurdod eu hystyried er mwyn derbyn dyraniadau am ddim?

29. Oes gennych chi farn ynghylch a oes cymhellion datgarboneiddio amgen a allai gael eu gweithredu drwy ddyraniadau am ddim?

30. Oes gennych chi farn ynghylch a fyddai rhwystrau i'r egwyddor o weithredu amodau mewn modd teg, pe bai'r Awdurdod yn mynd ar drywydd yr opsiwn hwn?

Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 53 o ymatebion i gwestiwn 26, ac roedd 42 (79%) ohonynt yn gwrthwynebu cyflwyno amodau yn gysylltiedig ag ymdrechion datgarboneiddio ar gyfer dyraniadau am ddim, ac roedd 11 (21%) yn mynegi cefnogaeth.

Dadleuodd pedwar ar hugain (45%) o'r ymatebwyr y byddai amodau yn wrthgynhyrchol i'r nod creiddiol o ddarparu dyraniadau am ddim, sef lleihau'r risg o ddadleoli carbon. Roedd pedwar ar

ddeg (26%) o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu amodau ar y sail y byddai'n dyblygu'r hyn y mae polisïau eraill y DU yn ei wneud, gan gynnwys meincnodi ETS y DU, ac roedd 18 (34%) yn poeni y byddai'n anodd gweithredu hynny mewn modd teg. Roedd y risg o lethu rhanddeiliaid â baich gweinyddol cynyddol hefyd yn bryder allweddol a godwyd gan 9 (17%) o'r ymatebwyr.

Cafwyd 56 o ymatebwyr i gwestiwn 27, ac o'r rhain, roedd 34 (61%) yn gwrthwynebu'r tri dyluniad dangosol o amodau. Roedd 12 (35%) o'r ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu'r amodau dylunio dangosol am eu bod yn gwrthwynebu gweithredu amodau ar sail egwyddor.

Amod dangosol tri oedd yr un mwyaf poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr. Fe'i nodwyd naill ai fel yr opsiwn a ffafrir, neu'r lleiaf amhoblogaidd o'r opsiynau a gynigiwyd, gan 10 (18%) o ymatebwyr. Dadleuai'r rhai a oedd o blaid opsiwn tri mai dyma fyddai'r symlaf i'w weithredu, y lleiaf tebygol o fod yn annheg, ac y gallai annog ymdrechion ychwanegol i ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, honnodd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r opsiwn y byddai'r baich gweinyddol helaeth sy'n gysylltiedig â chydymffurfio ag amod tri yn gwrthbwysio unrhyw fanteision disgwylidig.

Ar y cyfan, teimlai'r ymatebwyr y byddai'n anod gweithredu amodau dangosol un a dau yn deg ar draws y diwydiant, eu bod yn creu risg ychwanegol o dadleoli carbon, yn rhoi baich gweinyddol na ellid ei gyfiawnhau ar ddiwydiant, gan dyblygu ymdrechion polisïau eraill. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn mai opsiwn un oedd y tecaf o'r tri opsiwn enghreifftiol, a bod rhai o blaid opsiwn dau, roedd yr holl ymatebwyr yn cydnabod yr anawsterau cynhenid wrth weithredu unrhyw un o'r opsiynau.

Cafwyd 28 o ymatebion i gwestiwn 28. Manteisiodd deunaw (64%) o'r ymatebwyr hyn ar y cyfle i ailddatgan eu bod yn gwrthwynebu cyflwyno amodau ar gyfer dyrannu lwfansau am ddim, ac ailbwysleisiodd 3 (11%) ymatebydd arall bwysigrwydd dyraniadau am ddim er mwyn lleihau'r risg o ddadleoli carbon. Nododd pedwar (14%) o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer dyluniad amodau posibl, tra bod 3 (11%) yn dadlau o blaid amodau cadarnhaol yn hytrach na negyddol. Dadleuodd pedwar (14%) o ymatebwyr eraill o blaid cymorth pellach, gan gynnwys cymorth ariannol ac ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid, er mwyn helpu safleoedd i ddatgarboneiddio.

Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 29. Roedd 17 (59%) o'r ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu gweithredu unrhyw fath o gymhellion datgarboneiddio drwy ddyraniadau am ddim, mewn egwyddor. Dadleuai pump (17%) o'r ymatebwyr o blaid rhyw fath o amodau cadarnhaol, lle byddai ymdrechion i ddatgarboneiddio yn cael eu gwobrwyo â mwy o ddyraniadau am ddim.

Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 30. Ceir rhestr isod o rai o'r rhwystrau posibl i weithredu amodau mewn egwyddor yn deg, a awgrymwyd yn yr ymatebion hyn:

- Adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod
- Gwahaniaethau ar lefel safle o ran argaeledd a mynediad at dechnolegau sero net
- Mynediad anghyfartal at seilwaith datgarboneiddio a thanwydd carbon isel
- Hyd cylchoedd buddsoddi
- Yr anawsterau sy'n gysylltiedig â dylunio gofynion sy'n berthnasol i holl gyfranogwyr y cynllun, heb ddyblygu na gorgyffwrdd â gofynion rheoleiddio presennol.

- Cyfyngiadau rheoleiddiol
- Dibyniaeth ar ddull dilyniannu clwstwr diwydiannol DESNZ

Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chyflwyno unrhyw fath o amodau ar ddyraniadau am ddim o 2027 ymlaen. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus yr adborth ar y tri amod posibl a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad fel rhan o'i asesiad. Un o'r pryderon mwyaf arwyddocaol a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch y tri amod enghreifftiol oedd y risg o gynyddu'r baich gweinyddol ar weithredwyr. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r angen i beidio â chynyddu cymhlethdod na baich gweinyddol fel rhan o newidiadau i ddyraniadau am ddim, ac wedi pwysu a mesur budd cyflwyno amodau o gymharu â'r baich a'r gost a fyddai'n cael ei gorfodi ar weithredwyr a rheoleiddwyr fel bo modd eu cyflwyno.

Er mwyn sicrhau'r baich gweinyddol lleiaf posibl, byddai angen i'r Awdurdod sicrhau y gellid cysylltu unrhyw system amodau weithredol â chynllun arall sy'n bodoli eisoes gan y Llywodraeth. I'r perwyl hwn, archwiliodd yr Awdurdod y posibilrwydd o glymu'r dull amodau wrth gynlluniau fel y Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni (ESOS), y cynllun Cytundebau Newid Hinsawdd (CCA), a Thrwyddedau Parodrwydd am Ddatgarboneiddio (DRPs) i asesu dichonadwyedd y dull hwn.

Cynlluniau Eraill a Aseswyd gan Lywodraeth y DU:

Mae'r ESOS yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ganfod arbedion effeithlonrwydd er mwyn cyfrannu at dargedau sero net. Mae'n gynllun asesu ynni gorfodol ar gyfer sefydliadau yn y DU sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso.

Mae cynllun CCA yn cynnwys cytundebau gwirfoddol a wneir rhwng diwydiant y DU ac Asiantaeth yr Amgylchedd i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon deuocsid (CO₂). Yn gyfnewid am hynny, bydd gweithredwyr yn derbyn gostyngiad i'r Ardoll Newid Hinsawdd (CCL).

O ran DRPs, nod Parodrwydd Datgarboneiddio (DR) yw darparu llwybr datgarboneiddio clir ar gyfer gweithfeydd newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol, ac ar gyfer gorsafoedd ynni hylosgi carbon uchel presennol, er mwyn datgarboneiddio'n wirfoddol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr greu cynllun dichonadwy i ddangos sut y gall eu gweithfa ddatgarboneiddio yn unol â'i amgylchiadau neilltuoel.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod nodau'r amodau ar gyfer dyraniadau am ddim ac amcanion cynlluniau presennol yn aml yn ystyriol, gan ganolbwyntio ar annog datgarboneiddio a gweithio tuag at dargedau sero net Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, ni fyddai cwmipas y cynlluniau presennol, o ran meysydd diddordeb ac ystod y cyfranogwyr, yn bodloni'r gofynion angenrheidiol i weithredu amodau'n effeithiol ar gyfer dyraniadau am ddim. Ar ben hynny, penderfynwyd nad oedd yr amserlenni gweithredu ar gyfer y cynlluniau presennol hyn, ac unrhyw ddiweddariadau

arfaethedig iddynt, yn cyd-fynd â'r cyfnod dyrannu am ddim sydd ar ddod. Gan hynny, penderfynodd yr Awdurdod na fyddai'n ddichonadwy cysylltu amodau ar gyfer dyraniadau am ddim ag un o gynlluniau presennol y llywodraeth.

Diystyrododd yr Awdurdod amod dau gan fod asesiadau cyfredol yr Awdurdod yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd y CSCF yn cael ei sbarduno. Mae hynny'n golygu na fydd angen amodau fel dull o dargedu cymorth yn well yng nghyd-destun y cap diwydiant

Opsiwn tri a dderbyniodd yr adborth mwyaf ffafriol gan randdeiliaid. Fodd bynnag, yn ystod y broses asesu, penderfynodd yr Awdurdod fod y costau, yr ymdrech a'r adnoddau er mwyn gweithredu'r opsiwn hwn yn gwrthbwysu ei fuddion o safbwynt yr Awdurdod a'r diwydiant. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad hefyd na fyddai'n cael rhyw lawer o effaith ar gyfraddau datgarboneiddio'r diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am yr asesiad hwn ar gael yn yr Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ymateb hwn ar GOV.UK.

O ganlyniad i'r broses asesu hon, ac adborth gan randdeiliaid, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chyflwyno amodau o 2027 ymlaen. Mae'r Awdurdod yn nodi'r manteision posibl yn gysylltiedig â chyflwyno amodau a bydd yn parhau i ystyried rhinweddau hynny ar gyfer y dyfodol.

Pennod 6: Dyraniadau Am Ddim ar gyfer Sectorau wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Dadleoli Carbon yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2024 – Mawrth 2025) ar gyfer addasu dyraniadau am ddim i sectorau wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU o 2027 ymlaen.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu diddymu dyraniadau am ddim yn raddol dros nifer o flynyddoedd ac i mewn i'r 2030au ar gyfer sectorau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU. Bydd y diddymu hwn yn digwydd ar lefel is-safleoedd er mwyn sicrhau mai ond dyraniadau am ddim sy'n cyd-fynd â chynnyrch lle cymhwysir tâl CBAM y DU yr effeithir arnynt. Bydd y broses hon o ddiddymu dyraniadau am ddim yn sicrhau cyfnod pontio graddol i ddiwydiannau ledled y DU, o ddyraniadau am ddim i CBAM y DU, fel y prif ddull o leihau dadleoli carbon.

Mae'r dull a fabwysiadwyd yn adlewyrchu cyflymder a graddfa'r broses o ddiddymu dyraniadau am ddim yn ETS yr UE ar gyfer sectorau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM yr UE. Bydd hyn yn cefnogi cysondeb yn y cyfnod pontio i fusnesau'r DU a'r UE. Bydd y newid hwn yn creu effeithiau ar Adroddiadau Data Gwaelodlin yr ail gam. Ceir rhagor o fanylion yn adran Camau Nesaf y ddogfen hon.

Crynodeb o'r Cynigion

Ym Mhennod 2 o'r Ymgynghoriad ar Dadleoli Carbon 2024, nododd Awdurdod ETS y DU gynigion i addasu'r ymagwedd at ddyraniadau am ddim ar gyfer sectorau a fydd yn dod o dan CBAM y DU o 2027 ymlaen. Nod y cynigion hyn oedd sicrhau cysondeb rhwng prisio carbon domestig a mesurau ffiniol, gan gynnal cefnogaeth i sectorau â risg o dadleoli carbon yn ystod y cyfnod pontio.

Cyflwynwyd y cynigion canlynol:

Addasu Dyraniadau Am Ddim ar gyfer Sectorau CBAM y DU

Cynigiodd yr Awdurdod ddechrau addasu lefelau dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau o fewn cwmpas CBAM y DU o ddechrau'r ail gyfnod dyrannu yn 2027. Byddai'r addasiad hwn yn adlewyrchu cyflwyno pris carbon ar fewnforion, gan leihau'r angen am ddyraniadau am ddim fel offeryn i leihau dadleoli carbon.

Paramedrau ar gyfer Addasu

Nododd yr ymgynghoriad ystod o opsiynau ar gyfer cyfrifo'r addasiad, gan gynnwys:

- Amseriadau'r addasiad yn seiliedig ar y flwyddyn ddechrau, y flwyddyn orffen a'r taflwybr.
- Maint yr addasiad, a

- Gweithrediad technegol yr addasiad.

Meini Prawf Asesu

Cynigiodd yr Awdurdod asesu'r lefel briodol o addasiad drwy ddefnyddio cyfuniad o:

- Leihau'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer mewnforion;
- Lleihau'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer allforion;
- Effaith addasiad Dyraniad Am Ddim ar effeithiolrwydd yr ETS;
- Ymarferoldeb technegol y fethodoleg addasu dyraniadau am ddim; a
- Fforddiadwyedd y polisi terfynol a ddewisir i'r llywodraeth

Cynlluniwyd y cynigion hyn i sicrhau bod ETS y DU a CBAM y DU yn gweithredu mewn modd sy'n ategu'r naill a'r llall gan sicrhau bod ymdrechion i leihau dadleoli carbon yn trosglwyddo'n llyfn.

Cwestiynau (O Ymgynghoriad Dadleoli Carbon Adolygu Dyraniadau Am Ddim 2024 - 2025)

9. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod, sef na ddylid bwrw ymlaen â'r opsiwn 'gwneud dim'? Os nad ydych chi'n cytuno, esboniwch eich rhesymeg.

10. Ydych chi'n cytuno â'r paramedrau addasu sydd wedi'u nodi gan yr Awdurdod? Os nad ydych chi, esboniwch eich rhesymau ac unrhyw baramedrau eraill y dylid eu hystyried.

11. Ydych chi'n ffafrio blwyddyn gychwyn, hyd yr addasiad neu'r taflwybr ar ei gyfer? Eglurwch eich rhesymau am bob un o'ch dewisiadau.

12. Ydych chi'n cytuno â'r rhesymeg a gyflwynwyd i'w hystyried ym mhob un o baramedrau'r addasiad? Os nad ydych chi, esboniwch eich rhesymeg ac unrhyw ystyriaethau eraill y dylai'r Awdurdod roi sylw iddynt.

13. Ydych chi'n cytuno â'r agweddau y bydd yr Awdurdod yn eu hystyried wrth bennu maint yr addasiad i ddyraniadau am ddim? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb.

14. Oes gennych chi unrhyw ffafriaeth o ran defnyddio addasiad i sero neu addasiad i swm nad yw'n sero? Esboniwch eich ateb.

15. Ydych chi'n cytuno â mapio SICs i nwyddau CBAM a ddarperir gan yr Awdurdod? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb.

16. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod na ddylai dyraniadau am ddim ond cael eu haddasu ar gyfer nwyddau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb.

17. A oes unrhyw ffactorau eraill yr hoffech chi dynnu sylw atynt i'w hystyried gan yr Awdurdod, o ran sut y dylid datgyfuno dyraniadau am ddim nwyddau CBAM a nwyddau nad ydynt wedi'u cynnwys o dan CBAM. Esboniwch sut ydych chi'n meddwl y gellid rhoi'r fethodoleg hon ar waith.

18. Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf asesu a gyflwynwyd i'w hystyried gan yr Awdurdod? Os nad ydych chi, esboniwch eich ateb a darparu meini prawf asesu eraill i'w hystyried.

19. Rhowch y meini prawf asesu mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig.

Crynodeb o'r Ymatebion

Mae'r adran hon yn crynhoi adborth rhanddeiliaid i gwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch addasu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU. Derbyniwyd ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr diwydiant, grwpiau amgylcheddol, sefydliadau academiaidd ac awdurdodau lleol.

Rhoddodd wyth ymatebydd ar hugain farn ar y safbwynt a gefnogir gan yr Awdurdod, sef peidio bwrw ymlaen â'r opsiwn 'gwneud dim' (C9). O'r rhain, roedd 17 (61%) yn cytuno, 7 (25%) yn anghytuno, a 4 (14%) heb gytuno nac anghytuno. Pwysleisiodd cefnogwyr bwysigrwydd addasu'n weithredol i sicrhau effeithiolrwydd CBAM y DU a ETS y DU, gan gyfeirio at uniondeb amgylcheddol, cydnawsedd â WTO, ac aliniad â'r UE. Roedd y rhai a wrthwynebai yn cwestiynu a fyddai addasiadau'n gwella effeithiolrwydd, ac yn codi pryderon ynghylch cystadleurwydd a dadleoli carbon. Tynnodd ymatebwyr niwtral sylw at yr angen am asesiadau penodol-i-sector ac eglurder pellach.

Gwnaeth dau ar hugain o ymatebwyr sylwadau ar y paramedrau addasu a nodwyd gan yr Awdurdod (C10). Cytunai un deg naw (86%), anghytunai 2 (9%), ac nid oedd 1 (5%) ymateb yn berthnasol. Cafwyd cefnogaeth eang o blaid dull graddol, aliniad â'r UE, a chynnwys mecanweithiau adolygu. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid amrywio addasiadau yn ôl sector i adlewyrchu gwahanol amserlenni datgarboneiddio. Cododd y rhai a oedd yn gwrthwynebu pryderon ynghylch digonolrwydd y paramedrau wrth fynd i'r afael â dadleoli mewn allforion, gan alw am ragor o dystiolaeth o effeithiolrwydd CBAM y DU.

Mynegodd saith ymatebydd ar hugain yr hyn yr oeddent yn eu ffafrio o ran blwyddyn gychwyn, hyd yr addasiad, a'r taflwybr (C11). Roedd llawer o blaid dechrau yn 2027 i gyd-fynd â chyflwyno CBAM y DU, tra bo eraill o blaid dechrau'n ddiweddarach fel bo modd gwerthuso. Cafodd cyfnod addasu o 10 mlynedd gefnogaeth eang, gyda rhai yn cefnogi hyblygrwydd ac adolygiadau interim. Taflwybr graddol neu siâp S oedd yn cael ei ffafrio amlaf, gyda rhai ymatebwyr yn argymhell addasiadau sector-benodol. Roedd alinio â'r UE yn thema a gododd dro ar ôl tro, ochr yn ochr â galwadau am gyfathrebu clir a gorfodi cadarn.

Rhoddodd dau ymatebydd ar bymtheg farn ar y rhesymeg dros y paramedrau addasu (C12). Cytunai deuddeg (71%) â'r rhesymeg, tra bo 5 (29%) yn anghytuno. Cyfeiriodd cefnogwyr at bwysigrwydd alinio â'r UE a lleihau dadleoli carbon. Roedd y pryderon yn cynnwys risg o ostyngiadau cynnar, yr angen am fecanweithiau adolygu, a phwysigrwydd cynllunio a gorfodi. Cydnabu rhai ymatebwyr fylchau mewn gwybodaeth dechnegol a gofynnwyd am eglurder pellach.

Gwnaeth pum ymatebydd ar hugain sylwadau ar yr ystyriaethau y dylai'r Awdurdod roi sylw iddynt wrth bennu maint yr addasiad (C13). Cytunai dau ar bymtheg (68%), anghytunai 6 (24%), ac nid oedd 2 (8%) yn cytuno nac yn anghytuno. Tynnodd cefnogwyr sylw at bwysigrwydd lleihau dadleoli carbon, mynd i'r afael â risgiau allforio ac alinio â'r UE. Roedd y rhai a anghytunai yn cwestiynu CBAM y DU ac yn codi pryderon ynghylch addasiadau cyn pryd a'r effeithiau ar gystadleurwydd.

Pan ofynnwyd a ddylai'r addasiad fod i sero neu swm nad yw'n sero (C14), rhoddodd 25 o ymatebwyr farn. Roedd wyth (32%) yn cefnogi addasiad i sero, 14 (56%) yn ffafrio dull dim sero, a 3 (12%) heb ffafrio'r naill na'r llall. Cyfeiriodd y rhai oedd o blaid sero at aliniad â'r UE a'r angen i CBAM y DU weithredu'n annibynnol. Pwysleisiodd y rhai a oedd yn ffafrio addasiad i swm nad yw'n sero risgiau dadleoli wrth allforio, yr angen am newid graddol, a phwysigrwydd cydbwysio datgarboneiddio â chystadleurwydd.

Gwnaeth deg ymatebydd sylwadau ynghylch mapio codau SIC yr Awdurdod â nwyddau CBAM y DU (C15). Roedd chwech (60%) yn cytuno, 3 (30%) yn anghytuno, ac nid oedd 1 (10%) yn cytuno nac yn anghytuno. Ar y cyfan, roedd cefnogwyr yn cymeradwyo'r mapio ond yn awgrymu bod angen mwy o fanylder yn y data. Cododd y rhai a oedd yn anghytuno bryderon ynghylch ansawdd data a blynyddoedd gwaelodlin, a chynnig methodolegau amgen.

Rhoddodd pedwar ymatebydd ar hugain farn ynghylch a ddylid ond addasu dyraniadau am ddim ar gyfer nwyddau wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU (C16). Roedd tri ar ddeg (54%) yn cytuno, 8 (33%) yn anghytuno, ac nid oedd 3 (13%) yn cytuno nac yn anghytuno. Nododd cefnogwyr fanteision amgylcheddol a masnach, tra bo'r gwrthwynebwyr yn dadlau o blaid ymdriniaeth ehangach ac yn codi pryderon am y baich gweinyddol a'r effeithiau ar sectorau penodol.

Gwnaeth naw ymatebydd sylwadau ar y fethodoleg ar gyfer datgyfuno nwyddau CBAM y DU a nwyddau nad ydynt wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU (C17). Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd nodi is-safleoedd, cymhlethdod prosesau cynhyrchu, a'r angen am ddigon o amser a methodolegau clir. Codwyd ystyriaethau penodol-i-sector ac uniondeb amgylcheddol hefyd.

Rhoddodd pedwar ymatebydd ar bymtheg farn ar y meini prawf asesu a gynigiwyd gan yr Awdurdod (C18). Cytunai un ar ddeg (58%) ac anghytunai 8 (42%). Pwysleisiodd cefnogwyr ddichonadwyedd technegol, rhwyddineb cydymffurfio, a chysylltiad yn y dyfodol â'r UE. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn cwestiynu cynnwys fforddiadwyedd y llywodraeth a'r effaith ar effeithiolrwydd ETS y DU, ac yn awgrymu meini prawf ychwanegol fel twf economaidd a chystadleurwydd.

Ymateb yr Awdurdod

Yn dilyn ymgynghoriad ar ddyfodol dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau sy'n dod o dan CBAM y DU, mae'r Awdurdod yn cadarnhau y bydd dyraniadau am ddim yn cael eu diddymu'n raddol ar gyfer y sectorau hyn o 2027. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod CBAM y DU yn

cael ei gyflwyno fel offeryn lleihau dadleoli carbon newydd, a'r angen i sicrhau cydlynid rhwng mecanweithiau polisi sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.

Bu'r Awdurdod yn ymgynghori ynghylch a ddylid cadw dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU, gan gynnwys er mwyn ymdrin â risgiau gweddilliol fel dadleoli wrth allforio a dadleoli'n is i lawr y gadwyn gyflenwi. Er bod rhai rhanddeiliaid o blaid cynnal lefel o ddyraniadau am ddim i'r dibenion hyn, mae'r Awdurdod wedi casglu mai diddymu'n llwyr yw'r dull mwyaf priodol o weithredu.

Mae cyflwyno CBAM y DU yn newid y proffil risg dadleoli carbon yn sylfaenol ar gyfer y sectorau dan sylw. Drwy gymhwyso pris carbon i fewnforion, mae CBAM y DU yn sicrhau nad yw ymdrechion datgarboneiddio cynhyrchwyr domestig yn cael eu tanseilio gan fewnforion dwys eu hallyriadau i farchnad y DU. Pe bai dyraniadau am ddim yn parhau ochr yn ochr â CBAM y DU, byddai'r pris carbon gweithredol a wynebier gan gynhyrchwyr domestig yn gostwng yn sylweddol, gan wario'r signal prisiau sydd ei angen o ysgogi datgarboneiddio, a chan arwain at gyfradd CBAM y DU is ar fewnforion.

Er bod dadleoli allforion yn parhau i achosi risg¹¹, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad nad dyraniadau am ddim yw'r mecanwaith gorau i leihau'r risg honno ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes methodoleg gadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer targedu dyraniadau am ddim at safleoedd sy'n agored i allforion mewn modd sy'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r risg o ddadleoli yn y dyfodol. Canfuwyd bod ymdrechion i ddatblygu methodolegau o'r fath—fel addasu'r Dangosydd Dadleoli Carbon (CLI) i adlewyrchu dwysedd allforion—yn dibynnu'n fawr ar ddata anghyflawn neu anghyson, ac y byddent yn cyflwyno elfen sylweddol o gymhlethdod ac ystumiadau posibl i'r system ddyrannu.

Taflwybr Diddymu


Mae'r Awdurdod yn cadarnhau y bydd y broses o ddiddymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau sy'n dod o dan CBAM y DU yn cychwyn yn 2027, gyda thaflwybr sy'n adlewyrchu'r cyflymder diddymu yn yr UE, gan sicrhau trosglwyddiad graddol a llyfn i fesur lleihau ddadleoli carbon arall. Drwy alinio dechrau'r broses o ddiddymu'n raddol â gweithrediad CBAM y DU, mae'r Awdurdod yn sicrhau na fydd cynhyrchwyr domestig yn agored i risgiau dadleoli carbon cyn i sefydlu mesurau ar gyfer ffiniau. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu adborth gan randdeiliaid sy'n galw am drosglwyddiad gofalus a seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cefnogi amcanion hinsawdd a masnach ehangach y DU.

Bydd taflwybr a chyflymder y diddymu wedi'u halinio â dull yr UE, gan gefnogi cysondeb o ran prisiau carbon a lleihau dadleoli carbon ar draws y naill awdurdodaeth a'r llall. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd proses ddiddymu'r DU yn dechrau flwyddyn ar ôl yr UE, i gyd-fynd â chyflwyno CBAM y DU. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod mecanweithiau diogelu rhag dadleoli carbon yn gyson ar draws ffiniau.

¹¹Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ymateb hwn.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cadarnhau y bydd y broses ddiddymu'n dechrau'n raddol, gydag ond ychydig o ostyngiad mewn dyraniadau am ddim yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae rhanddeiliaid wedi galw'n gyson am ddull gofalus sy'n osgoi gostwng dyraniadau am ddim yn rhy fuan, cyn profi bod CBAM y DU yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr adborth hwn ac wedi dylunio taflwybr sy'n rhoi sicrwydd i weithredwyr gan gadw'r hyblygrwydd i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Er mai ond cadarnhau'r rheolau ar gyfer dyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf y mae Ymateb yr Awdurdod, er mwyn rhoi mwy o eglurder i fusnesau'r DU, mae'r Awdurdod hefyd yn darparu taflwybr dangosol ar gyfer y cyfnod diddymu y tu hwnt i 2030, gan ganiatáu i fusnesau gynllunio eu buddsoddiadau datgarboneiddio ymlaen llaw.




Ffigur 7 Graff yn dangos taflwybr diddymu graddol ar gyfer dyraniadau am ddim i sectorau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU

Dull o Weithredu

Bydd y broses o ddiddymu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM y DU yn dechrau yn 2027, gan gyd-fynd â dechrau CBAM y DU. Bydd yr addasiad yn cael ei weithredu ar lefel yr is-safle i sicrhau mai ond allyriadau sy'n gysylltiedig â nwyddau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM

y DU yr effeithir arnynt. Mae'r dull hwn yn osgoi effeithiau anfwriadol ar weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU, ac yn sicrhau bod mesur diogelu rhag dadleoli carbon yn parhau i fod ar waith ar gyfer sectorau nad ydynt wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU.



Ffigur 8 Siart llif yn disgrifio rhaniadau safleoedd Dyraniadau Am Ddim ar sail rhaniadau is-safleoedd newydd

Bydd yr addasiad yn cael ei gymhwyso'n unffurf ar draws holl sectorau CBAM y DU. Mae'r Awdurdod o'r farn fod angen dull unffurf yn y cam hwn i sicrhau eglurder, tegwch a chyflawnadwyedd. Bydd yr addasiad yn cael ei gyflwyno fel paramedr newydd yn y fethodoleg dyraniadau am ddim, a gymhwysir wrth gyfrifo dyraniadau rhagarweiniol. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder a chysondeb â phrosesau dyrannu presennol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cadarnhau y bydd gweithrediad technegol yr addasiad yn seiliedig ar fapio nwyddau sy'n dod o dan CBAM y DU (wedi'u dosbarthu o dan godau Cyfundrefn Enwi Gyfun) i is-safleoedd ETS y DU (wedi'u dosbarthu o dan godau NACE a PRODCOM). Bydd yn ofynnol i weithredwyr nodi pa rai o'u his-safleoedd sy'n cynhyrchu nwyddau sy'n dod o dan CBAM y DU ar sail eu categorïau NACE a PRODCOM yn ystod ail gam proses yr Adroddiad Data Gwaelodlin yn 2026. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran y Camau Nesaf. Mae'r tablau isod yn disgrifio sectorau ar lefel NACE a PRODCOM yn ETS y DU a fydd yn cael eu dosbarthu fel sectorau CBAM y DU a fydd yn profi gostyngiad i'w dyraniadau am ddim o 2027. Lle bo'n ofynnol i is-safleoedd rannu eu his-safle yn NACE neu PRODCOMs sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU vs rhai nad ydynt wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU, bydd angen iddynt ailgyflwyno Adroddiad Data Gwaelodlin wedi'i ddilysu gyda'r wybodaeth hon wedi'i datgyfuno yn ystod ffenestr yr ail gam. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y baich gweinyddol ychwanegol y gallai hyn ei roi ar y busnesau hyn. Serch hynny, credwn fod y fantais o weld gostyngiad mewn dyraniadau am ddim ar gyfer allyriadau sydd wedi'u cynnwys o dan CBAM y DU yn unig yn cyfiawnhau ailgyflwyno data.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gallai unrhyw benderfyniad posibl yn y dyfodol i ehangu cwmpas CBAM y DU o ran sectorau olygu bod angen ailasesu'r ymagwedd at ddyraniadau am ddim ar gyfer sectorau newydd CBAM y DU. Pe bai unrhyw newidiadau o'r fath yn digwydd, byddent yn destun ymgynghori a dadansoddi pellach i sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, ac yn cyd-fynd ag amcanion ETS y DU.

Fel y manylwyd yn yr Ymgynghoriad Dadleoli Carbon yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim yn 2024, gallai dyraniadau am ddim sy'n cael eu diddymu'n raddol ar gyfer sectorau CBAM y DU arwain at lwfansau heb eu dyrannu o dan y Cap Diwydiant. Gallai hefyd arwain at gynnydd yn y galw am lwfansau o'r gyfran arwerthu. Yn unol â diwygiadau i ddeddfwriaeth ETS y DU yn 2024¹², bydd unrhyw lwfansau heb eu dyrannu yn cael eu hystyried yn lwfansau 'cronfa hyblygrwydd' a byddant ar gael i'w defnyddio i leihau'r risg o sbarduno'r Ffactor Cywiro Traws-Sector a/neu ymyriadau mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cyflenwad o lwfansau i'r farchnad, felly bydd yn parhau i adolygu'r ymdriniaeth ag unrhyw lwfansau heb eu dyrannu er ystyriaeth i'r dyfodol.

Dull Llywodraeth y DU o Leihau'r Risg o Ddadleoli mewn Allforion

Er nad ydym yn canlyn mesur lleihau sy'n seiliedig ar ETS y DU drwy gadw lwfansau am ddim ar gyfer dadleoli mewn allforion, bydd Llywodraeth y DU yn parhau i asesu'r risg o ddadleoli mewn allforion, yng nghyd-destun datblygu polisi ehangach ar ddatgarboneiddio a dadleoli carbon, ac amcanion a rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach y DU.

¹² [Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2024](#) - Erthygl newydd 23A.

Pennod 7: Newidiadau Technegol

Mae'r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Adolygu Dyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024). Roedd y cynigion hyn yn cynnwys ystyriaethau i gynyddu cywirdeb y data a adroddir gan weithredwyr.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chyflwyno'r newidiadau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ond bydd yn parhau i'w hadolygu er ystyriaeth i'r dyfodol.

Crynodeb o'r Cynigion

Newid Technegol Tri: Diweddarau cynnwys gofynnol y cynllun methodoleg monitro

Mae'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim (FAR) yn cynnwys gofyniad i safleoedd sy'n derbyn dyraniadau am ddim gynnal Cynlluniau Methodoleg Monitro (MMPs), sy'n rhan o drwydded gweithredwr. Mae'n ofynnol i'r rheoleiddwyr gynnwys amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sy'n derbyn dyraniadau am ddim (i) fonitro eu data yn unol â'u MMP ar FAR (ii) cadw cofnodion data yn unol â'r FAR, (iii) gwneud cais i amrywio eu trwyddedau os ceir addasiad sylweddol i'w MMP a (iv) hysbysu'r rheoleiddiwr am fân addasiadau.

Ar hyn o bryd, mae'r MMP yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir i fesur cynhyrchu a'r defnydd o drydan, a'r rhan o'r defnydd sy'n gyfnewidadwy, lle bo'n berthnasol ar lefel is-safle.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar opsiwn i ddiwygio'r FAR i adlewyrchu mai ond safleoedd sy'n cynhyrchu trydan i'w allforio neu sy'n dod o dan gyfnewidioldeb sy'n gorfod adrodd ar eu balans trydan.

Newid Technegol Pedwar: Newidiadau i Hierarchaethau Mesuryddion Gwres

Mae'r FAR yn nodi y dylai'r ffynhonnell ddata fwyaf cywir i fesur hierarchaeth gwres gydymffurfio â Rheoliadau Offerynnau Pwyso Anawtomatig 2016 neu Reoliadau Offerynnau Mesur 2016, ond ni ellir fyth fodloni'r rheoliadau hyn wrth fesur hylif (e.e. dŵr); mae hynny'n golygu na all nifer fawr o safleoedd fodloni'r hierarchaeth, ac nid oes ganddynt safon cywirdeb i'w bodloni - h.y. gall mesuriadau fod $\pm 10\%$ neu fwy.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar opsiwn i gyflwyno safon gyfatebol ar gyfer mesur gwres, i gynnwys y gellir derbyn cywirdeb cyfatebol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Offerynnau Pwyso Anawtomatig 2016 neu Reoliadau Offerynnau Mesur 2016 (e.e. $\pm 3\%$ o ddarlleniadau gwirioneddol ar gyfer gwres mesuradwy).

Newid Technegol Pump: Addasiad i Egwyddorion Monitro mewn perthynas â Hierarchaeth

Nid yw'n ofynnol adolygu MMP lle na ddefnyddir y dulliau mwyaf cywir o fesur.

Bu'r Awdurdod yn ymgynghori ar opsiwn i addasu'r Egwyddorion Monitro yn y FAR i ofyn i'r gweithredwr adolygu lle caniateir rhanddirymiadau i'r hierarchaeth ar gyfer dulliau monitro ym mhob cyfnod dyrannu.

Newid Technegol Chwech: Diweddaru'r Cyfrifiad Cost Afresymol

Mae'r cyfrifiad cost afresymol yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried lle byddai'r amcangyfrif o gost gweithredwr yn fwy na budd methodoleg mesur benodol.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar opsiwn i ddiweddaru'r pris cyfeirio a ddefnyddir yn y cyfrifiad hwn i roi adlewyrchiad gwell o brisiau Lwfansau ETS y DU.

Newid Technegol Saith: Gofyniad i gynnal gwiriadau system reolaeth bob blwyddyn.

Mae'n ofynnol i weithredwyr gynnal asesiad o'u systemau rheolaeth ar gais yr Awdurdod, ac i ddibenion dilysu. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol graddnodi, addasu a gwirio offer mesur gweithgarwch rheolaeth yn rheolaidd, gan gynnwys cyn eu defnyddio.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar opsiwn i gyflwyno gofynion gwirio blynyddol ar offer mesur i sicrhau eu bod yn perfformio'n unol â'r safon ofynnol.

Cwestiynau (Ymgynghoriad ar Adolygu Dyraniadau Am Ddim o 2023 – 2024)

34. Ydych chi'n cytuno â dull yr Awdurdod yn Newid Technegol Tri i ddiweddaru cynnwys gofynnol y cynllun methodoleg monitro? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)

35. Ydych chi'n cytuno â dull yr Awdurdod yn Newid Technegol Pedwar i newid hierarchaethau mesur mesuryddion gwres? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)

36. Ydych chi'n cytuno â dull yr Awdurdod yn Newid Technegol Pump i addasu Egwyddorion Monitro mewn perthynas â hierarchaethau? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)

37. Ydych chi'n cytuno â dull yr Awdurdod yn Newid Technegol Chwech i ddiweddaru'r pris cyfeirio cyfrifo cost afresymol? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)

38. Ydych chi'n cytuno â dull yr Awdurdod yn Newid Technegol Saith, i'w gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau systemau rheolaeth bob blwyddyn? (Ydw/Nac ydw. Esboniwch eich ateb)

Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 27 o ymatebwyr i Gwestiwn 34, ac o'r rhain cytunodd 11 (41%) i weithredu'r newid, cytunodd 1 (4%) yn rhannol, a gwrthwynebodd 8 (30%) y newid, ac ni roddodd 6 farn.

Nododd ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r newid na ddylai gweithredwyr orfod adrodd data nad yw'n effeithio ar gyfanswm eu FA.

Cafwyd 24 o ymatebwyr i Gwestiwn 34, ac o'r rhain cytunodd 4 ymatebydd (17%) i weithredu'r newid, cytunodd 1 (4%) yn rhannol, gwrthwynebodd 17 (71%) y newid, ac ni roddodd 2 (8%) farn.

O'r ymatebwyr a gefnogodd y newid, pwysleisiodd 2 ymatebydd na ddylai gynyddu costau i weithredwyr na rhoi baich anghymesur ar sectorau penodol.

O'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r newid, cyfeiriodd 65% at gostau ychwanegol a chynnydd i'r baich gweinyddol fel pryderon allweddol; Nododd 53% ei bod yn debygol y byddai'r safon arfaethedig yn parhau i fod yn anghyraeddadwy i'w safleoedd.

Cafwyd 30 o ymatebwyr i Gwestiwn 36, ac o'r rhain cytunodd naw ymatebydd (30%) i weithredu'r newid, cytunodd 1 (3%) yn rhannol, gwrthwynebodd 10 (33%) y newid, ac ni roddodd 10 (33%) farn.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r newid yn disgrifio'r cyfnod adolygu arfaethedig (unwaith bob cyfnod dyrannu) fel un rhesymol.

O'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r newid, mynegodd y mwyafrif bryderon y byddai'r broses adolygu yn arwain at gostau ychwanegol a baich gweinyddol ar weithredwyr heb arwain at newidiadau ystyrlon o ran rhanddirymidiadau na lefelau dyraniadau am ddim.

Cafwyd 21 o ymatebwyr i Gwestiwn 37, ac o'r rhain roedd 13 (62%) yn cytuno y dylid diweddarau pris cyfeirio'r UKA, ac 8 (38%) yn anghytuno.

Ymhlith y rhai a oedd o blaid diweddarau, dywedodd 5 ymatebydd y dylai'r pris cyfeirio roi adlewyrchiad gwell o bris y farchnad.

O blith y rhai a oedd yn gwrthwynebu diweddarau, mynegodd 4 ymatebydd bryderon y gallai pris cyfeirio uwch arwain at gostau sylweddol i weithredwyr.

Cafwyd 45 o ymatebwyr i Gwestiwn 38, ac o'r rhain cytunodd 5 ymatebydd (11%) i weithredu'r newid, cytunodd 1 (2%) yn rhannol, a gwrthwynebodd 39 (87%) y newid.

Roedd yr ymatebwyr a gefnogai'r newid yn cymeradwyo'r egwyddor o wella cywirdeb data ond yn cyfeirio at y ffaith ei bod hi'n bosib na fyddai'r cyfyngau adolygu arfaethedig yn ymarferol i safleoedd â systemau cymhleth, ac y gallent darfu ar weithrediadau busnes.

O blith y rhai a wrthwynebai'r newid, tynnodd 31% sylw at yr heriau technegol i weithredwyr â systemau cymhleth, a nododd 21% gostau ychwanegol i weithredwyr fel pryder allweddol.

Ymateb yr Awdurdod

Newid Technegol Tri: Diweddaru cynnwys gofynnol y cynllun methodoleg monitro

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau na fydd yn diwygio'r FAR.

Mae'r Awdurdod o'r farn fod y ddeddfwriaeth gyfredol yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig. Mae Adran 2.5 o Atodiad IV yr FAR ar gydbwysedd blynyddol mewnforio, cynhyrchu, defnyddio ac allforio trydan ar draws safleoedd yn nodi mai ond safleoedd sy'n cynhyrchu trydan sy'n gorfod adrodd ar y data a ddisgrifir ym mhwyntiau (a) i (e).

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynyddu cywirdeb y data a adroddir gan weithredwyr, a bydd yn parhau i adolygu a gwella'r ffordd y mae ETS y DU yn gweithredu.

Newid Technegol Pedwar: Newidiadau i Hierarchaethau Mesuryddion Gwres

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau na fydd yn cyflwyno safon gyfatebol ar gyfer mesuryddion gwres.

Daeth yr Awdurdod i'r casgliad, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, nad oes digon o hyder bod cywirdeb cyfatebol arfaethedig mesuryddion sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Offerynnau Pwyso Anawtomatig 2016 neu Reoliadau Offerynnau Mesur 2016 (e.e. $\pm 3\%$ o ddarlleniadau gwirioneddol ar gyfer gwres mesuradwy) o fewn cyrraedd i ddiwydiannau perthnasol ledled y DU.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynyddu cywirdeb y data a adroddir gan weithredwyr, a bydd yn parhau i adolygu a gwella'r ffordd y mae ETS y DU yn gweithredu.

Newid Technegol Pump: Addasiad i Egwyddorion Monitro mewn perthynas â Hierarchaeth

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau na fydd yn cyflwyno gofyniad i weithredwyr adolygu lle caiff rhanddirymiadau i'r hierarchaeth ar gyfer dulliau monitro eu caniatáu o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dyrannu.

Mae'r Awdurdod o'r farn fod y ddeddfwriaeth gyfredol yn adlewyrchu'r newid arfaethedig. Mae Adran 4.3 o Atodiad VII y FAR yn disgrifio'r broses ar gyfer dewis methodolegau cyfrif a ffynonellau data sy'n cynrychioli'r cywirdeb uchaf posib. Mae'n mynnu bod gweithredwyr yn gwirio'n rheolaidd a oes ffynonellau data newydd wedi dod ar gael, o leiaf unwaith y flwyddyn. Os ystyrir bod y rhain yn gywirach (yn unol â'r hierarchaeth yn adrannau 4.4 i 4.6) sbardunir newid i'w MMP, gan ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu'r ffynhonnell data sy'n gywirach. Mae hyn yn unol ag egwyddor gwelliant parhaus yr MMP.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynyddu cywirdeb y data a adroddir gan weithredwyr, a bydd yn parhau i adolygu a gwella'r ffordd y mae ETS y DU yn gweithredu.

Newid Technegol Chwech: Diweddaru'r Cyfrifiad Cost Afresymol

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â diweddarau ffigur y pris cyfeirio a ddefnyddiwyd i gyfrifo cost afresymol am y tro. Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw'r pris cyfeirio cyfredol ar gyfer UKA yn adlewyrchu prisiau diweddar UKA, sydd wedi bod yn uwch na'r pris cyfeirio drwy gydol y cyfnod dyrannu cyfredol. Fodd bynnag, ac ystyried cwmphas y newidiadau cynlluniedig a phosibl ar draws y cynllun, mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'n ddoeth aros nes i'r newidiadau hynny gael eu cwblhau cyn penderfynu ar unrhyw ddiweddariad i'r pris cyfeirio. Gall yr Awdurdod ddiweddarau'r cyfrifiad cost afresymol yn y dyfodol.

Newid Technegol Saith: Gofyniad i gynnal gwiriadau system reolaeth bob blwyddyn.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau na fydd yn cyflwyno gofyniad gwirio blynyddol ar gyfer offer mesur systemau rheolaeth.

Casglodd yr Awdurdod y gallai cyflwyno gofyniad gwirio blynyddol darfu ar rai gweithredwyr ac achosi costau ychwanegol iddynt, yn enwedig y rhai hynny â systemau cymhleth lle mae angen atal neu darfu ar gynhyrchu er mwyn cyflawni gweithgareddau rheolaeth.

Mae'r Awdurdod yn nodi bod gweithgynhyrchwyr cyfarpar mesur yn darparu argymhellion ynghylch pa mor aml y dylai defnyddwyr raddnodi, addasu a gwirio eu cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i berfformio'n unol â'r safon ofynnol. Efallai y bydd hyn yn ganllaw defnyddiol i weithredwyr wrth gynnal system rheolaeth effeithiol yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Erthygl 11 y Rheoliadau Dyraniadau Am Ddim.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i gynyddu cywirdeb y data a adroddir gan weithredwyr, a bydd yn parhau i adolygu a gwella'r ffordd y mae ETS y DU yn gweithredu.

Y camau nesaf

Bydd yr ail gam i ymgeisio am ddyraniadau am ddim ar gyfer 2027-2030 yn digwydd rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2026. Yn ystod y cyfnod ymgeisio hwn, bydd gofyn i weithredwyr gadarnhau eu ceisiadau cychwynnol am ddyraniadau am ddim a wnaed yn 2025, neu eu tynnu'n ôl, nawr bod yr adolygiad o ddyraniadau am ddim bellach wedi'i gwblhau, yn ogystal â chadarnhau statws eu his-safle o ran CBAM y DU. Yn ogystal â hyn, bydd angen i rai gweithredwyr y mae CBAM y DU yn effeithio arnynt ailgyflwyno gwybodaeth yn gysylltiedig â'r is-safleoedd yr effeithir arnynt. Yn ystod yr ail gam, bydd cyfle hefyd i weithredwyr ddatgan a ddylid eithrio eu data o flwyddyn gynllun 2020 neu 2020 a 2021 wrth gyfrifo eu HAL. Cyhoeddir canllawiau pellach ar sut i gydymffurfio â gofynion yr ail gam ymgeisio ymlaen llaw cyn y cyfnod ymgeisio. Bydd rheoleiddwyr yn hysbysu gweithredwyr pan fydd y canllawiau hyn ar gael.

Ni fydd gweithredwyr na chyflwynodd gais cam cyntaf am ddyraniadau am ddim yn 2025 yn cael cyflwyno cais yn 2026. Dim ond pan fydd dwy ran y cais am ddyraniadau am ddim wedi'u cwblhau, a'r cais wedi'i gymeradwyo gan Awdurdod ETS y DU, y bydd y gweithredwr yn gymwys i dderbyn dyraniadau am ddim ar gyfer 2027-2030.

Ar ôl cyhoeddi'r gwerthoedd meincnod sydd wedi'u diweddarau gan yr UE, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi penderfyniad terfynol ynghylch y dull o gyfrifo dyraniadau am ddim ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y cyfnod dyrannu sydd ar ddod. Disgwylir i hyn gael ei egluro yn 2026, gan ddiweddarau tablau dyrannu cyn gynted ag sy'n bosibl cyn dosbarthu dyraniadau am ddim yn 2028, cyn 28 Chwefror 2028.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael gan: www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost i alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os cawn wybod gennych pa dechnoleg gynorthwyol yr ydych yn ei defnyddio.